

Ymchwiliad i effaith COVID-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru:

Adroddiad 3 – Effaith ar y
sector gofal cymdeithasol a
gofalwyr di-dâl

Mawrth 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/Seneddlechyd

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Seneddlechyd@senedd.cymru**
Twitter: **[@Seneddlechyd](https://twitter.com/Seneddlechyd)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Ymchwiliad i effaith COVID-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru:

Adroddiad 3 – Effaith ar y
sector gofal cymdeithasol a
gofalwyr di-dâl

Mawrth 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/Seneddlechyd

Cadeirydd y Pwyllgor:



Dai Lloyd AS
Plaid Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Rhun ap Iorwerth AS
Plaid Cymru



Jayne Bryant AS
Llafur Cymru



Angela Burns AS
Ceidwadwyr Cymreig



Lynne Neagle AS
Llafur Cymru



David Rees AS
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Andrew RT Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion.....	6
1. Cyflwyniad.....	9
2. Y sector gofal cymdeithasol	10
Cyfyngiadau ar ymweliadau â chartrefi gofal.....	10
Ein barn ni.....	16
Rhyddhau o ysbytai i gartrefi gofal.....	18
Ein barn ni.....	20
Rhaglen frechu.....	21
Ein barn ni.....	22
Mynediad at brofion a chyfarpar diogelu personol.....	23
Profion.....	23
Cyfarpar Diogelu Personol (PPE).....	27
Ein barn ni.....	28
Pwysau ariannol a phwysau o ran staff.....	29
Ein barn ni.....	35
Hawliau dynol.....	36
Ein barn ni.....	37
3. Gofalwyr di-dâl	38
Yr effaith ar ofalwyr.....	38
Mynediad at wasanaethau.....	39
Gofal seibiant.....	41
Ein barn ni.....	44
Gofalwyr ifanc.....	45
Ein barn ni.....	48
Statws gofalwyr di-dâl.....	48
Yr effaith ariannol ar ofalwyr.....	51
Ein barn ni.....	54

4. Y camau nesaf a'r cynlluniau adfer 57

Ein barn ni 61

Rhagair y Cadeirydd



Yn wahanol i'r GIG, y bydd pawb wedi'i ddefnyddio rywbryd yn eu bywydau, mae'r sector gofal cymdeithasol yn anweledig i raddau helaeth ac eithrio i'r rhai hynny sydd angen ei gefnogaeth, ac iddyn nhw, mae'n amhrisiadwy.


Mae COVID-19, fodd bynnag, wedi amlygu'r cyfraniad enfawr y mae ein gweithlu gofal cymdeithasol yn ei wneud i gadw ein dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ddiogel. Mae hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i ddiwygio'r system ac i ddatblygu trefniant cyllido cynaliadwy a hirdymor ar gyfer gofal cymdeithasol y bu sôn amdano ers amser maith, ac mae'n hen bryd i hyn ddigwydd.

Fel Pwyllgor, rydym wedi bod yn codi pryderon ynghylch bregusrwydd y sector gofal cymdeithasol ers blynyddoedd lawer ac mae'r sefyllfa ond wedi gwaethygu o ganlyniad i COVID-19. Rydym hefyd wedi galw am gydraddoldeb rhwng gweithwyr gofal cymdeithasol a'u cydweithwyr yn y GIG, o ran telerau ac amodau eu cyflogaeth a'r canfyddiad a geir ohonynt.

Hoffwn dalu teyrnged i'r holl ofalwyr di-dâl ledled Cymru, y bydd llawer ohonynt wedi aberthu eu hiechyd a'u llesiant eu hunain i ddiogelu a gofalu am eu hanwyliaid. Ers dechrau'r pandemig, mae nifer y gofalwyr di-dâl bron wedi dyblu. Gall gofalu fod yn heriol mewn amseroedd arferol, ond yn ystod pandemig pan nad oes braidd ddim mynediad at wasanaethau cymorth, rydym yn cydnabod y pwysau aruthrol y mae hyn wedi'i roi arnoch chi, yn gorfforol, yn emosiynol, ac yn ariannol.

Rydym yn pryderu am ein gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn enwedig. Rydym yn gwybod bod COVID-19 yn rhoi straen yn gyffredinol ar lawer o bobl ifanc, sy'n ei chael yn anodd dygymod ag ynysu cymdeithasol, colli trefn arferol, a chymorth ffurfiol ac anffurfiol sydd wedi chwalu. Mae hyn yn arbennig o wir i'n gofalwyr ifanc, y mae llawer ohonynt wedi colli mynediad at yr unig fath o seibiant sydd ganddynt – yr ysgol. Felly, mae'n siomedig iawn clywed bod y gwasanaethau a oedd yn gyfyngedig eisoes sydd ar gael i gefnogi'r grŵp hwn wedi dirywio yn ystod y pandemig.

Nid gor-ddweud yw dweud bod gofalwyr yn arwyr. Mae gofalwyr yn rhoi cymaint i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt a hebddynt, byddai ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu llethu ac ni fyddant yn gallu gweithredu. Rhaid iddynt gael eu cefnogi, eu cydnabod a'u gwobrwyo i'w galluogi i barhau i ofalu cyhyd ag y dymunant wneud hynny.



Dr. Dai Lloyd AS
Cadeirydd

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel blaenoriaeth frys, sicrhau bod cartrefi gofal yn cael mynediad at yr holl offer a chyfleusterau angenrheidiol (e.e. unedau bach a phrofion llif unffordd i ymwelwyr) er mwyn galluogi ailddedrau ymweliadau.....Tudalen 17

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel blaenoriaeth frys, gryfhau ei chanllawiau i ddarparu cartrefi gofal i sicrhau mai caniatáu ymweliadau diogel fydd y sefyllfa ddiodyn.Tudalen 17

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Fforwm Gofal Cymru i gael a chynnal darlun clir o'r sefyllfa ledled Cymru o ran ymweliadau â chartrefi gofal yn barhaus, ac i hwyluso'r broses o rannu arfer da rhwng cartrefi gofal gyda'r bwriad o gynyddu nifer y cartrefi sy'n cefnogi ymweliadau diogel.
.....Tudalen 17

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at bob bwrdd iechyd i ailbwysleisio eu cyfrifoldebau o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn pe bai rhyddhau anniogel yn digwydd.....Tudalen 20

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r amseroedd prosesu i gael canlyniadau profion ar gyfer staff cartrefi gofal a phreswylwyr er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu dychwelyd cyn gynted â phosibl. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod o fewn 24 awr ar ôl cynnal y prawf, ac yn sicr ni ddylai fod yn hwyrach na 48 awr.Tudalen 29

Argymhelliad 6. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i gynnal cyflenwadau digonol a chynaliadwy o gyfarpar diogelu personol sy'n bodloni'r safonau ansawdd a argymhellir, monitro ei effeithiolrwydd mewn perthynas â'r amrywiolion newydd, a chyfathrebu'n effeithiol â'r sector gofal cymdeithasol i roi sicrwydd bod y cyfarpar diogelu personol sydd ar gael yn darparu amddiffyniad priodol.....Tudalen 29

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gofal Cymdeithasol Cymru i broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol yn sicrhau parch cydradd â'r gweithlu gofal iechyd, a sefydlu llwybrau gyrfaf clir ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael tâl priodol.
.....Tudalen 36

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

i sicrhau bod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u cynnal. Rydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at bwyllgor y Chweched Senedd sy'n gyfrifol am bobl hŷn ar ddechrau'r Chweched Senedd i egluro'r hyn sydd wedi cael ei wneud i ddatrys y pryderon a godwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Comisiynydd Pobl Hŷn.

..... Tudalen 37

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Grŵp Cyngori'r Gweinidog a sefydliadau gofalwyr i ddatblygu ffyrdd mwy creadigol o ddarparu seibiant ac egwyl fer. Dylai hyn gynnwys dysgu o arfer gorau mewn mannau eraill.

..... Tudalen 44

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gofalwyr ifanc a blaenoriaethu ailagor cefnogaeth wyneb yn wyneb yn ddiogel i ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc..... Tudalen 48

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei hymateb i Argymhelliad 26 yn ein hadroddiad ar effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr—a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid hirdymor, cynaliadwy a symlach i sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr—gyda'r bwriad o'i weithredu fel mater o frys..... Tudalen 55

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei hymgyrchoedd cyfathrebu ac ymwybyddiaeth y cyhoedd mewn perthynas â rhaglen frechu COVID-19 yn cynnwys targedu gwybodaeth yn effeithiol ar gyfer gofalwyr di-dâl, a sicrhau eu bod yn ymwybodol eu bod yn gymwys i gael brechlyn.

..... Tudalen 56

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'i phartneriaid i ddatblygu a gweithredu ymgyrch codi ymwybyddiaeth i wella gwybodaeth pobl am y gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr, yn enwedig o ran cymorth ariannol. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod gan bobl sydd wedi'u nodi fel gofalwyr di-dâl yn ystod y rhaglen frechu yn erbyn COVID-19 fynediad at wybodaeth am eu hawliau a'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo..... Tudalen 56

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer penderfyniadau a wnaed yn ystod pandemig COVID-19 mewn perthynas â chymorth/cyllid i ofalwyr di-dâl er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith anghymesur ar grwpiau na chymunedau yn y tymor byr neu'r tymor hwy..... Tudalen 56

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru roi datganiad yn gynnar yn y Chwchedd Senedd ar ei chynigion i gryfhau'r trefniadau ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a chanlyniad yr ymgynghoriad ar ei Phapur Gwyn ar ailgydbwysio gofal a chymorth, a sut y bydd yn ystyried yr argymhellion perthnasol a wnaed gan Bwyllgor Iechyd y Senedd hon a'r rhai blaenorol.....Tudalen 62

1. Cyflwyniad

1. Dyma'r trydydd mewn cyfres o adroddiadau sy'n edrych ar effaith COVID-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn yr adroddiad hwn rydym yn edrych yn benodol ar faterion sy'n effeithio ar y sector gofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl. Gwyddom y gall pobl o bob oedran fod yn derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol neu'n byw mewn lleoliadau gofal cymdeithasol am amrywiaeth o resymau. Fodd bynnag, mae ein hadroddiad yn adlewyrchu bod y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni yn ystod ein hymchwiliad yn canolbwyntio'n bennaf ar bobl hŷn a gofalwyr di-dâl.
2. Yn ein hadroddiad cyntaf¹ gwnaethom edrych ar y problemau a brofwyd gan y sector gofal cymdeithasol yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, gan gynnwys cyflenwi cyfarpar diogelu personol a phrofi ar gyfer staff a phreswylwyr cartrefi gofal. Nid ydym yn bwriadu ailedrych ar y materion hyn, ac eithrio lle maent yn parhau i fod yn broblem.
3. Cawsom nifer sylweddol o ymatebion i'n hymgyngghoriad. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith. Er nad yw'n bosibl adlewyrchu popeth a gyflwynwyd cyflwyniad yn yr adroddiad hwn, mae pob un ohonynt wedi cael eu hystyried ac wedi helpu i lywio ein gwaith yn y maes hwn. Mae rhestr lawn o bawb a roddodd dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig ar gael ar [ein gwefan](#).
4. Dylid nodi bod y sefyllfa mewn perthynas â COVID-19 yn esblygu'n gyflym, felly er y bydd y dystiolaeth a ddaeth i law wedi adlewyrchu'r amgylchiadau pan gafodd ei chyflwyno, efallai y bydd y cyd-destun wedi newid erbyn yr adeg cyhoeddi.

¹ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [Ymchwiliad i effaith COVID-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 1](#), Gorffennaf 2020

2. Y sector gofal cymdeithasol

Cyfyngiadau ar ymweliadau â chartrefi gofal

- 5.** Penderfynodd llawer o gartrefi gofal atal ymwelwyr rhag dod i mewn i gartrefi ddiwedd mis Chwefror / dechrau mis Mawrth 2020 i geisio diogelu preswylwyr. Dywedodd Llywodraeth Cymru y dylid cyfyngu ar ymweliadau o 23 Mawrth, ond roedd y rhan fwyaf o gartrefi eisoes wedi gwneud hyn yn gynharach. Mae ymweliadau cyfyngedig gan gadw pellter cymdeithasol wedi cael eu caniatáu ar rai adegau yn ystod y flwyddyn.
- 6.** Ganol mis Mehefin / Gorffennaf, dechreuodd rhai cartrefi gofal ganiatáu ymweliadau awyr agored â chyfyngiadau, ac ar ddiwedd mis Awst, diweddarwyd canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cartrefi gofal i ganiatáu ar gyfer ymweliadau dan do gan gadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, dywedodd y canllawiau hefyd, pe bai cyfraddau trosglwyddo'r coronafeirws yn codi yn y gymuned neu ar lefel genedlaethol, y gallai'r ymweliadau gael eu hatal.
- 7.** Roedd hyn yn wir ym mis Medi, pan gyflwynwyd cyfyngiadau symud lleol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, gyda'r cyfnod atal byr cenedlaethol i ddilyn ddiwedd mis Hydref. Cafodd ymweliadau â chartrefi gofal eu hatal eto yn ystod y cyfnodau hyn o'r cyfyngiadau, ond rhoddwyd caniatâd iddynt ailgychwyn pan gafodd y cyfnod atal byr ei lacio ar 9 Tachwedd. Diweddarodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau ar gyfer ymweld â chartrefi gofal ar 10 Tachwedd, ond roeddent dal yn nodi:
- “Gallai ymweliadau â chartrefi gofal ddod i ben os bydd cyfraddau trosglwyddo lleol yn y gymuned yn fwy na 5%. Gall ymweliadau â chartrefi gofal ddod i ben os bydd cyfraddau trosglwyddo COVID-19 yn codi ar lefel genedlaethol. Gellir gosod cyfyngiadau ar ymweliadau â chartrefi gofal mewn ardal benodol o'r awdurdod lleol, yn yr awdurdod lleol cyfan neu yn genedlaethol yn dibynnu ar y gyfradd drosglwyddo”.
- 8.** Yn dilyn y cyhoeddiad ar 19 Rhagfyr bod Cymru yn symud i gyfyngiadau Lefel Rhybudd 4,³ cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith rheoli ac atal heintiau ar gyfer gofal cymdeithasol, i gynorthwyo gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r

² Llywodraeth Cymru, [Canllawiau ar ymweliadau â chartrefi gofal: canllawiau i ddarparwyr](#)

³ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Cyfyngiadau Lefel Rhybudd Pedwar](#)

cyhoedd i ddeall y mesurau i'w disgwyl ar bob lefel. Mae'r cynllun yn nodi, ar Lefel Rhybudd 4:

“Y dull arferol ddylai fod asesu risgiau lleol ac unigol, gan osgoi dulliau cyffredinol a chydabod y gwahaniaeth o berygl oddi wrth COVID-19 i breswylwyr oedranus o'i gymharu â'r risg i blant. Gan y darparwr unigol y mae'r penderfyniad yn y pen draw o ran caniatáu ymweliadau i'r cartref gofal ac o dan ba amgylchiadau, ac rydym yn deall y bydd rhai darparwyr yn ei chael yn fwy heriol i hwyluso ymweliadau nag eraill. Fodd bynnag, bwriad y canllawiau hyn yw cefnogi darparwyr i alluogi ymweliadau, ac rydym yn disgwyl ac yn annog darparwyr i hwyluso ymweliadau pan fo modd. Mae canllawiau mwy manwl am gynnal asesiadau risg yn cael eu datblygu”.⁴

9. Mae canllawiau lefel rhybudd 4 Llywodraeth Cymru hefyd yn dweud y caniateir ymweliadau â chartrefi gofal 'am resymau tosturiol' (a ystyrir yn amgylchiadau eithriadol), ac eto, y cartref gofal unigol sy'n penderfynu yn y pen draw. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Dirprwy Weinidog) wrthym:

“we have allowed visits in exceptional circumstances, and those exceptional circumstances would cover, very sadly, end-of-life care, and they would also cover [] people with dementia when they're in distress, [] or if there'd been a bereavement in the family.”⁵

10. Pan ofynnwyd iddi ym mis Ionawr 2021 faint o gartrefi gofal yng Nghymru oedd yn caniatáu ymweliadau ar hyn o bryd, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

“As you know, there are 1,050 care homes, separate individual care homes, across Wales. Many of them, the vast majority, are independently owned, and we don't have any specific figures about how many care home visits are taking place.”⁶

11. Ychwanegodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

⁴Llywodraeth Cymru, [Cynllun rheoli'r coronafeirws: Lefelau rhybudd yng Nghymru ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant](#)

⁵ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 10

⁶ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 9

“Care Inspectorate Wales have done some intensive work. They’re in regular contact with those care providers, having discussions around visiting arrangements, promoting the guidance. So, we’re very closely aligned. And as the Member quite rightly raised the issue of how many visits are taking place, at the moment there’s very few because of the status at level four. As we move forward, I have spoken to Care Forum Wales who are going to assist us in getting an accurate picture of visiting, going forward as well.”⁷

12. Dywedodd tystion i’n hymchwiliad wrthym eu bod yn credu bod rhai cartrefi gofal yn rhy amharod i gymryd risg, a’u bod yn gwrthod ymweliadau drwy gydol y pandemig. Dywedwyd wrthym fod angen cefnogi cartrefi gofal i sicrhau eu bod yn cynnal hawliau preswylwyr, gan sicrhau bod popeth y maent yn ei wneud yn unol â’r canllawiau.⁸

13. Dywedodd Sue Phelps o Gymdeithas Alzheimer’s Cymru wrthym:

“We have heard from care homes and care home staff as well who really feel that separation and want to do their best but there does seem to be a level of risk aversion that, again, has been disproportionate to trying to make it safe.”⁹

14. Aeth ymlaen i ddweud ei bod yn credu bod canllawiau coronafeirws Llywodraeth Cymru yn rhy agored i’w dehongli i awdurdodau lleol eu cyflawni a’u gweithredu. Dywedodd fod hyn wedi arwain at anghysondeb sylweddol, a galwodd am i Lywodraeth Cymru fod yn fwy cyfarwyddiol.¹⁰

15. Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

“We have done all that we possibly can to encourage and enable visits to take place safely. We have a multi-agency stakeholder group who have worked together to try to come up with good, reasonable guidelines, and I think that the position that the Welsh Government has taken is very clear, and I personally have done all I can to try to ensure that visits do take place safely. But it is a very difficult situation,

⁷ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 20

⁸ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2020, paragraff 23

⁹ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2020, paragraff 18

¹⁰ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2020, paragraff 27

and naturally, many of the care home providers are very nervous and anxious about having any visits.”¹¹

16. At hynny, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod gwaith ar y gweill i ddiweddarau'r canllawiau ar ymweliadau i adlewyrchu cyflwyno'r rhaglen frechu. Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym:

“We've been working tirelessly over many months around visiting guidance, moving as the virus escalated in communities into the higher level tiers. I think the opportunity really presents itself now, as we begin to, hopefully, see a decline in community transmission rates. As that lowers, it gives us that ability then to move into a different visiting regime, because we all see the vital importance of being able to see your loved ones.”¹²

17. Yn ein hadroddiad ar effaith COVID-19 ar iechyd meddwl a llesiant¹³, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, mynegodd nifer o dystion bryderon ynghylch yr effaith yr oedd diffyg cyswllt ag anwyliaid dros gyfnod mor estynedig yn ei chael, yn enwedig ar bobl sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal.

18. Mae tystiolaeth gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yn nodi:

“Mae'n hanfodol bod y risgiau i breswylwyr a staff y gellid trosglwyddo Covid o ganlyniad i ymweliadau yn cael eu hystyried yn erbyn y risg i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal os bydd eu hiechyd corfforol a meddyliol yn dirywio o ganlyniad i gael eu cadw ar wahân yn hir oddi wrth y rheini sy'n golygu'r mwyaf iddyn nhw.”¹⁴

19. Dywedodd y Comisiynydd wrthym:

“We talk about visiting as if it's something quite small in our lives, but, actually, this is about older people in care homes having the contact with people that matter most in their lives, the people that they can share a concern with, have a laugh with, that give them meaning. And

¹¹ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 11

¹² Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 28

¹³ Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: [Adroddiad 2 - Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant](#)

¹⁴ Y Comisiynydd Pobl Hŷn, Ymweld â Chartrefi Gofal Yng Nghymru: [Datganiad Sefyllfa, Medi 2020](#)

equally, for friends and family who have loved ones in care homes, it's an incredibly important part of their life.”¹⁵

20. Cefnogodd Age Cymru alwad y Comisiynydd Pobl Hŷn am weithredu i gefnogi ymweliadau diogel â chartrefi gofal. Nododd yr elusen fod y cyfyngiadau ar ymweliadau â chartrefi gofal wedi cael effaith fawr ar fywydau'r bobl hŷn sy'n byw mewn gofal preswyl a'u hanwyliaid eleni. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, dywedodd:

“People told us that they were deeply concerned that their loved one has become depressed or their mental health deteriorated because of the prolonged separation they have faced over this time. For people living with dementia, this is exacerbated by the change in routine and lack of contact being extremely confusing too. This has also taken its toll on the mental health of friends and family.”¹⁶

21. Yn yr un modd, dywedodd Sue Phelps o Gymdeithas Alzheimer's Cymru wrthym:

“When you hear [] the hugely distressing stories where that excruciating separation, really, has caused people in care homes to give up. People have given up, and given up and passed away without having seen family members, but definitely their cognitive decline and their ability to communicate has suffered detrimentally.”¹⁷

22. Galwodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru am i ofalwyr teuluol gael statws gweithiwr allweddol a'r gallu i gael mynediad at y profion rheolaidd a'r cyfarpar diogelu personol sydd eu hangen arnynt i ganiatáu ymweliadau diogel ac ystyrlon â chartrefi gofal.¹⁸

23. Dywedodd Sue Phelps wrthym:

“When we've been talking about trying to get the key worker status considered, why could carers and family members not [] be given that status and have the testing when it became available, given the appropriate PPE equipment and training to go in and visit families?

¹⁵ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2020, paragraff 118

¹⁶ Age Cymru, [Behind the headlines: why in-person care home visiting must get going again](#)

¹⁷ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2020, paragraff 17

¹⁸ ITV Wales, [Calls for testing of relatives of care home residents with dementia](#), 17 Tachwedd 2020

There just hasn't been that willingness to listen and to respond, and that's been very, very difficult in terms of campaigning.”¹⁹

24. Clywsom fod llawer o enghreifftiau o arfer da wrth hwyluso ymweliadau, ond bod angen mwy o gymorth ar gartrefi gofal i rannu'r arfer da hwn. Dywedodd Heather Ferguson o Age Cymru wrthym:

“We know it's out there [] doing more things like the 'care home cwtch', bringing care home managers together to share their experiences and share what's working well in their homes.”²⁰

25. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog ganmol hefyd y gwaith sy'n cael ei wneud mewn cartrefi gofal i hwyluso ymweliadau:

“I [...] pay tribute to the huge efforts that have been made by care home providers, because what they have done is they've used all the means, the technology that they've got, to try to keep in touch with video-conferencing, with iPads—they're trying to keep in touch the whole time, and they have made huge effort to do that.”²¹

26. Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai 'unedau bach' dros dro yn cael eu cyflwyno i gartrefi gofal i hwyluso ymweliadau'n well dros y gaeaf. Roedd y cynllun peilot gwerth £3 miliwn yn talu costau caffael, gosod a phrydlesu 100 o unedau, gyda'r 30 cyntaf yn cael eu gosod ac yn barod i'w defnyddio cyn y Nadolig. Roedd hyn hefyd yn cynnwys £1 miliwn ar gyfer cynlluniau i gefnogi darparwyr y mae'n well ganddynt wneud eu trefniadau eu hunain ar sail debyg. Dywedodd Llywodraeth Cymru:

“Bydd ehangu'r lle sydd ar gael mewn cartrefi gofal yn ei gwneud yn haws cynnal ymweliadau'n seiliedig ar asesiadau risg yn ystod misoedd y gaeaf gan fod rhai darparwyr gofal wedi ei chael yn anodd trefnu ymweliadau gan nad oes digon o le dan do i allu cadw at y mesurau pellter cymdeithasol.”²²

27. At hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen beilot, a fyddai'n gweithredu ar draws nifer fach o gartrefi gofal yng Nghymru o 30 Tachwedd

¹⁹ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2020, paragraff 18

²⁰ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2020, paragraff 23

²¹ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 9

²² Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru: [Gosod unedau bach dros dro i gynnal ymweliadau mewn cartrefi gofal](#), 23 Tachwedd 2020

2020, a oedd yn darparu i aelodau o'r teulu gael profion cyflym a rheolaidd ar gyfer ymweliadau mwy diogel â chartrefi gofal.²³ Y bwriad oedd i hwn fod yn gynllun peilot logistaidd i baratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno profion cyflym yn ehangach i ymwelwyr â mwy o gartrefi gofal yng Nghymru, o 14 Rhagfyr. Dywedodd Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021, yn dilyn dilysiad gwyddonol o brofion gan ddefnyddio Dyfeisiau Llif Unffordd, cyflwynwyd profion llif unffordd ar gyfer yr holl ymwelwyr â chartrefi gofal yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2020 er mwyn hwyluso ymweliadau. Fodd bynnag, o ganlyniad i newidiadau i'r cyfyngiadau lefel 4 a gyflwynwyd ar 19 Rhagfyr, dim ond ymweliadau cyfyngedig iawn a phrofi cysylltiedig a oedd wedi digwydd.

28. Mewn ymateb i'n hadroddiad ar effaith COVID-19 ar iechyd meddwl a llesiant²⁴, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod y cynllun peilot i ddarparu unedau bach dros dro i gartrefi gofal oedolion yn parhau, a bod 69 uned bach wedi cael eu dosbarthu i gartrefi gofal cyn y Nadolig. Mae archeb ychwanegol o unedau bach ar gyfer ymwelwyr wedi'i sicrhau a disgwylir i gyfanswm o 101 o unedau bach gael eu cyflenwi drwy'r cynllun peilot, fel y bwriadwyd yn wreiddiol.²⁵

29. Bydd Llywodraeth Cymru yn casglu adborth gan y cartrefi hynny a gafodd uned bach fel rhan o'r gwerthusiad o'r cynllun peilot, i helpu i lywio'r camau nesaf o ran cefnogaeth barhaus i gartrefi gofal i sicrhau ymweliadau diogel.

Ein barn ni

30. Er bod Llywodraeth Cymru yn dweud nad oes unrhyw 'waharddiadau cyffredinol' a'i bod wedi annog ymweliadau diogel, mae'r Aelodau a'r rhanddeiliaid yn ymwybodol o rai cartrefi gofal / rhanbarthau sydd wedi parhau i wrthod ymweliadau trwy'r pandemig. Er ein bod yn gwerthfawrogi ac yn deall y pryderon sy'n wynebu rheolwyr cartrefi gofal, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y gall lefel yr amharodrwydd i gymryd risg fod yn anghymesur mewn rhai cartrefi gofal, yn enwedig o ystyried y datblygiadau a wnaed, megis profion cyflym ac unedau bach ar gyfer ymwelwyr. Rydym yn cytuno â'r Comisiynydd Pobl Hŷn bod

²³ Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig: [Ymweld â Chartrefi Gofal: Cynllun peilot i brofi ymwelwyr a phodiau ymweld am ddim i gartrefi gofal](#), 23 Tachwedd 2020

²⁴ Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: [Adroddiad 2 - Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant](#), Rhagfyr 2020

²⁵ [Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon](#): Covid-19: Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 2, Chwefror 2021

yn rhaid cydbwysu risgiau'r coronafeirws yn erbyn y risgiau i iechyd a llesiant preswylwyr, y mae llawer ohonynt yng nghyfnodau diweddarach eu bywydau.

31. Rydym yn pryderu'n fawr am lesiant preswylwyr cartrefi gofal a'u hanwyliaid, a'r niwed a achosir gan gyfnodau hir o fod ar wahân gyda chyfyngiadau parhaus ar ymweliadau â chartrefi gofal. Dywedwyd wrth y cyhoedd y byddai mynediad at brofion llif unffordd cyflym i ymwelwyr yn nodi newid sylweddol o ran galluogi cyswllt i aildddechrau, ond nid yw hyn wedi'i weld eto. Rydym am symud i sefyllfa lle y caniateir ymweliadau diogel fel y sefyllfa ddiodyn.

32. Rydym yn cydnabod bod nifer fawr o gartrefi gofal ledled Cymru, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu darparu gan gwmnïau preifat. Fodd bynnag, o ystyried pa mor bwysig yw ymweliadau i iechyd a llesiant preswylwyr cartrefi gofal, ein safbwynt yw y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth fonitro faint o gartrefi gofal sy'n hwyluso ymweliadau, a faint o gartrefi nad ydynt.

33. Mae llawer o bobl mewn cartrefi gofal yn byw drwy gyfnodau olaf eu bywydau ac mae cyswllt ystyrllon â'r rhai sydd bwysicaf iddynt yn gwbl hanfodol. Yn syml, nid oes digon o amser i lawer o breswylwyr aros i hyn gael ei ddatrys. Felly, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy cyfarwyddiadol i awdurdodau lleol a chartrefi gofal ar y mater hwn, oherwydd y niwed parhaus a achosir gan y diffyg cyswllt.

34. Rydym yn croesawu datganiad y Dirprwy Weinidog²⁶ ar 4 Mawrth ei bod yn bwriadu gallu cyhoeddi y bydd ymweliadau dan do arferol gan un ymwelydd dynodedig yn gallu aildddechrau o 13 Mawrth, fel rhan o'r pecyn o fesurau ehangach sy'n cael eu hystyried ar gyfer yr adolygiad bob tair wythnos.

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel blaenoriaeth frys, sicrhau bod cartrefi gofal yn cael mynediad at yr holl offer a chyfleusterau angenrheidiol (e.e. unedau bach a phrofion llif unffordd i ymwelwyr) er mwyn galluogi aildddechrau ymweliadau.

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel blaenoriaeth frys, gryfhau ei chanllawiau i ddarparwyr cartrefi gofal i sicrhau mai caniatáu ymweliadau diogel fydd y sefyllfa ddiodyn.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Fforwm Gofal Cymru i gael a chynnal darlun clir o'r sefyllfa ledled Cymru o ran ymweliadau â chartrefi

²⁶ Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: [Y diweddaraf ar ymweliadau â chartrefi gofal](#), 4 Mawrth 2021

gofal yn barhaus, ac i hwyluso'r broses o rannu arfer da rhwng cartrefi gofal gyda'r bwriad o gynyddu nifer y cartrefi sy'n cefnogi ymweliadau diogel.

Rhyddhau o ysbytai i gartrefi gofal

35. Mewn tystiolaeth a roddwyd i ni ym mis Rhagfyr 2020, awgrymodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) fod rhywfaint o amrywiad yn y ffordd yr oedd canllawiau rhyddhau o'r ysbyty yn cael eu dehongli a bod cleifion yn parhau i gael eu rhyddhau o'r ysbyty i gartrefi gofal heb iddynt gael canlyniad prawf ar gyfer y claf.²⁷

36. Dywedodd Nicola Stubbins, Llywydd ADSS Cymru a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Sir Dinbych, ei bod yn ymwybodol o achosion diweddar ledled Cymru lle nad oedd gweithdrefnau'n cael eu dilyn, er enghraifft lle mae cleifion wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty, a pherson oedrannus a gafodd ei anfon mewn ambiwlans o ysbyty i gartref gofal, yng nghanol y nos, heb ganlyniad prawf:

“The pressure placed on the care home to admit that resident, who is cold, upset, frightened, in the middle of the night, has been tremendous. So, it's been a very, very difficult situation, and when it happens—. It doesn't happen that frequently, but when it does it's considerable.”²⁸

37. At hynny, dywedodd ADSS Cymru y bu achosion hefyd o fyrddau iechyd yn ceisio defnyddio 'manylion technegol' i blygu'r rheolau. Er enghraifft, gallai preswlydd cartref gofal fod wedi treulio amser (yn aml am gyfnod hir / dros nos) mewn uned asesu ysbyty, yn hytrach na chael ei dderbyn i ward. Yna, mae'r ysbyty'n mynnu, gan nad yw wedi cael ei dderbyn yn 'dechnegol', y dylai allu dychwelyd i'w cartref gofal gwreiddiol heb gorfod hunanynysu neu ddefnyddio cyfleuster cam-i-lawr.

“This in our view poses very real risks. In these instances, there is a reliance on care home providers to have the confidence to challenge such discharges and refused to admit patients into care homes when the process has not been followed. However, this is not easy and is not helped when, in one region, care homes have to deal with two District

²⁷ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 172

²⁸ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 172

General Hospitals who apply different time scales in hospital (A&E) before a negative test is required.”²⁹

38. Aeth ADSS Cymru ymlaen i ddweud, mewn achosion lle roedd rhyddhad anniogel wedi digwydd, y byddai'r digwyddiad yn cael ei gofnodi gan y cartref gofal neu'r awdurdod lleol ac yn cael ei uwchgyfeirio i'r bwrdd iechyd i'w adolygu, ac y byddai unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu gweithredu.

“However, there have been occasions when an incident has been escalated with health colleagues but there has been no resolution or feedback provided back to us in local government to understand whether any appropriate action has been taken. So, there is a variability that needs to be addressed but, more importantly, health colleagues must be respectful, understanding and supportive of providers when they are reluctant to take citizens who are still COVID+ or their test status is unknown.”³⁰

39. Mae'r dystiolaeth gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn dilyn adroddiadau yn y cyfryngau am gartrefi gofal yn teimlo dan bwysau i dderbyn cleifion ysbyty heb brawf coronafeirws negyddol yn ystod cyfnod brig y pandemig. Roedd un arolwg yn y cyfryngau yn datgan bod 53 y cant o staff cartrefi gofal yn teimlo dan bwysau gan eu bwrdd iechyd i dderbyn pobl yn syth o'r ysbyty heb brawf coronafeirws.³¹

40. Tynnodd Gofalwyr Cymru sylw at bryderon ynghylch arferion rhyddhau gwael mewn ysbytai mewn perthynas â gofalwyr di-dâl, ac fe wnaethon nhw ddweud wrth y Pwyllgor:

“[...] winter is often a difficult time for unpaid carers because there's a pressure on family and friends to receive people back from hospital. And particularly through the pandemic, people have said that they've felt that hospital discharge has been rushed and that, as a carer, they haven't been properly consulted and there's not been a full assessment of whether that carer is willing and able to do the caring responsibility

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C87a

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, C87a

³¹ ITV Wales, [Care home staff 'under pressure' to accept hospital patients without negative Covid test, investigation finds](#), 20 Hydref 2020

that is required. And so, that is something that we are concerned about through this winter period.”³²

41. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog) wrthym fod canllawiau clir iawn yn seiliedig ar y datganiadau consensws wedi cael eu darparu gan grŵp cynghori technegol Llywodraeth Cymru. Dywedodd y disgwylir i bob rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol ddilyn y canllawiau hynny:

“There shouldn't be instances where health boards are trying to release people into care homes in contravention of the guidance. I would expect the care homes to have the local relationship with the health service to be able to do so. Equally, if social services directors have those concerns, they certainly have direct relationships with health boards at a senior level to be able to take that up and to make sure it's resolved.”³³

Ein barn ni

42. Mae'n destun pryder clywed bod rhai cartrefi gofal yn dal i deimlo dan bwysau i dderbyn preswylwyr o'r ysbyty heb ganlyniad prawf negyddol. Mae rhyddhau preswylwyr cartrefi gofal o'r ysbyty yn y fath fodd yn rhoi staff cartrefi gofal a phreswylwyr eraill mewn perygl. Yn yr un modd, os nad yw protocolau rhyddhau o'r ysbyty yn cael eu dilyn yn gyson, mae perygl y gallai pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty i'r gymuned heb wybod bod haint COVID-19 arnynt heintio staff gofal cartref, gofalwyr neu aelodau o'r teulu yn ddjarwybod.

43. Er ein bod yn cydnabod bod canllawiau ar waith, mae'n amlwg nad yw'r rhain yn cael eu dilyn ym mhob bwrdd iechyd, sy'n peri pryder mawr. Fodd bynnag, mae'n peri pryder arbennig, mewn rhai achosion lle yr adroddwyd am ryddhau anniogel o'r ysbyty, na roddwyd datrysiaid neu adborth i'r awdurdod lleol i roi sicrwydd bod camau priodol wedi'u cymryd.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at bob bwrdd iechyd i ailbwysleisio eu cyfrifoldebau o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn pe bai rhyddhau anniogel yn digwydd.

³² Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 104

³³ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 65

Rhaglen frechu

44. O 8 Rhagfyr 2020, dechreuodd byrddau iechyd yng Nghymru roi'r brechlyn Pfizer BioNTech mewn canolfannau ledled Cymru. Roedd brechlyn AstraZeneca ar gael i'w ddefnyddio yng Nghymru o 4 Ionawr 2021. Dywedodd Llywodraeth Cymru, gan fod gan frechlyn AstraZeneca lai o ofynion storio a chludo penodol na brechlyn Pfizer BioNTech, y byddai'n "llawer haws ei ddefnyddio mewn lleoliadau cymunedol, megis cartrefi gofal, a lleoliadau gofal sylfaenol".³⁴

45. Ar sail cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI), mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, preswylwyr a staff cartrefi gofal a phobl 80 oed a hŷn wedi cael eu blaenoriaethu ar gyfer y rownd gyntaf o frechiadau. Yn ôl ADSS Cymru, 'mae'r dull o gyflwyno'r brechiad yn gywir ac yn briodol'³⁵ oherwydd:

"As well as vaccinating our most vulnerable citizens, it is vitally important that frontline social care workers are vaccinated at the same time as health workers."³⁶

46. Mewn adroddiadau diweddar yn y cyfryngau, adroddir bod Fforwm Gofal Cymru yn dweud ei fod wedi clywed bod rhai cartrefi'n cael eu hysbysu os ydynt yn 'goch' yna ni fydd unrhyw un o'u preswylwyr yn cael eu brechu, 'ond mewn gwirionedd, mae angen y brechiad ar y preswylwyr hynny gymaint â phawb arall':

"Given that red is a status that can mean anything from one member of staff getting a portal positive - at a time when we are seeing lots of false positives to a serious outbreak, this does not seem to be in line with Public Health Wales' guidance which states that the situation should be risk assessed: 'If a care home has only one case of COVID-19 infection in a resident or staff member, other residents and care home staff should, according to the guidance, be offered vaccination as long as they have not been deemed close contacts of the case requiring self-isolation.'³⁷

³⁴Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru: [Ail frechlyn COVID-19 yn cyrraedd Cymru](#), 4 Ionawr 2021

³⁵ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 202

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, C87

³⁷ South Wales Guardian, [Care leader's frustration over Covid vaccine no-shows in Carmarthenshire, Pembrokeshire and Ceredigion](#), 18 Ionawr 2021

47. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda'r Dirprwy Weinidog ym mis Ionawr 2021. Dywedodd wrthym:

“We’ve changed the guidance on that, because at the beginning it was thought that if an infection was in the home it wasn’t possible to vaccinate. [] what we’re asking people to do now is [] risk-assess, and it may be possible then for the vaccinations to go ahead in a home even if there may have been an isolated case or a case where some residents can be isolated from the rest.”³⁸

48. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“We expect to complete the care home part of the programme practically by the end of January. We may have a couple of care homes outstanding, exactly as the Deputy Minister has explained. If we have an active and significant outbreak, we may not be able to put a vaccination team in, but we think we will have practically completed the care home side of the programme by the end of this month and we’re on track to do so.”³⁹

49. Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r cyntaf o gerrig milltir ei strategaeth frechu, a'i bod wedi cynnig brechlyn i holl breswylwyr a staff cartrefi gofal; staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen; pawb dros 70 oed a phawb sy'n hynod fregus yn glinigol erbyn canol mis Chwefror.

50. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

“Bydd yna resymau, wrth gwrs, pam nad yw rhai unigolion wedi gallu manteisio ar y cynnig i gael y brechlyn, a bydd yna rai nad oedd modd cael gafael arnynt. Rydym wedi gweithredu polisi ‘gadael neb ar ôl’ ac rydym yn cymryd camau i gysylltu ymhellach ag unigolion nad ydynt eto wedi cael eu brechu.”⁴⁰

Ein barn ni

51. Er iddynt gael eu beirniadu am ddechrau araf, hoffem ganmol Llywodraeth Cymru a phawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r rhaglen frechu am eu hymdrech

³⁸ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 45

³⁹ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 47

⁴⁰ Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig: [Carreg Filtir Un Cynllun Brechu COVID-19](#)

enfawr i hybu'r rhaglen. Rydym yn croesawu'n fawr y cadarnhad gan y Gweinidog ar 12 Chwefror bod y garreg filltir gyntaf wedi'i bodloni, a bod yr holl breswylwyr a staff cartrefi gofal (a phawb arall yn y pedwar grŵp blaenoriaeth JCVI cyntaf) wedi cael cynnig brechiad.

52. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd dros y misoedd nesaf, gan gynnwys yr hyn a fydd yn cael ei wneud i sicrhau bod brechiad ar gael i unrhyw un sydd wedi'i fethu, neu a allai fod wedi newid eu meddwl ynghylch cael brechiad.

Mynediad at brofion a chyfarpar diogelu personol

53. Yn ein hadroddiad cyntaf,⁴¹ a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2020, gwnaethom edrych ar y problemau a wynebwyd gan y sector gofal cymdeithasol yn ystod dyddiau cynnar y pandemig o ran argaeledd profion ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal a staff a chyflenwi cyfarpar diogelu personol.

Profion

54. Ym mis Mehefin 2020, cyflwynodd Llywodraeth Cymru raglen o brofion asymptomatig ar staff fel rhan o becyn o fesurau ar gyfer rheoli COVID-19 mewn cartrefi gofal yng Nghymru ac amddiffyn preswylwyr a staff⁴². Gwneir penderfyniadau yn lleol ynghylch a ddylid profi staff yn wythnosol neu bob yn ail wythnos yn seiliedig ar ddata ar nifer yr achosion a throsglwyddiad COVID-19 mewn cymunedau lleol a gwybodaeth leol.

55. Yn ogystal â chynnal profion asymptomatig ar staff, mae profion eraill yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19, gan gynnwys:

- Os bydd achos mewn cartref gofal, gellir darparu unedau profi symudol i brofi'r holl breswylwyr a staff.
- Profi pob unigolyn sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty i fynd i fyw mewn cartref gofal.
- Profi pawb sy'n cael eu trosglwyddo rhwng cartrefi gofal.
- Profi pawb sy'n cael eu derbyn i gartrefi gofal o'r gymuned.

⁴¹ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 1](#), Gorffennaf 2020

⁴² Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig: [Profi am COVID-19 mewn Cartrefi Gofal, Mehefin 2020](#)

- Profi holl breswylwyr a staff cartrefi gofal sydd ag achosion o COVID-19 ymysg eu preswylwyr neu staff.

56. Ym mis Rhagfyr 2020, mewn ymateb i gyfraddau heintio uchel yn y gymuned, dechreuodd staff mewn cartrefi gofal yng Nghymru gael profion wythnosol yn unol â'r ddogfen Iefelau rhybuddio gofal cymdeithasol a gyhoeddwyd ar 23 Rhagfyr.⁴³ Fodd bynnag, mewn datganiad ar y cyd ym mis Chwefror 2021, dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog, er gwaethaf ymdrechion gorau staff cartrefi gofal, awdurdodau lleol a thimau diogelu iechyd:

“rydym yn dal i weld canlyniadau profion positif mewn cartrefi gofal ymysg staff a phreswylwyr ac mae nifer cynyddol o gartrefi gofal yn delio ag achosion lluosog a brigiadau o'r feirws ar hyn o bryd”.⁴⁴

57. O ganlyniad, ac yn seiliedig ar y cyngor gwyddonol diweddaraf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen o brofion asymptomatig rheolaidd, ddwywaith yr wythnos, ar staff cartrefi gofal yng Nghymru, gan ddefnyddio dyfeisiau profion llif unffordd. Mae hyn yn ychwanegol at y profion PCR wythnosol a gynhaliwyd eisoes.

58. Ym mis Medi 2020, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym fod oedi wrth dychwelyd canlyniadau profion yn bryder sy'n flaenoriaeth i arweinwyr awdurdodau lleol, yn enwedig mewn 'mannau problemus' lleol lle mae preswylwyr cartrefi gofal yn cael eu profi'n wythnosol, ond nad yw'r canlyniadau'n cael eu dychwelyd yn ddigon prydlon ac weithiau cynhelir ail brawf cyn i'r canlyniadau blaenorol gael eu dychwelyd.⁴⁵

59. Cododd tystiolaeth gan ADSS Cymru ym mis Rhagfyr bryderon hefyd am faint o amser sy'n dal i gael ei gymryd i gael canlyniadau'n ôl. Awgrymodd fod rhai cartrefi gofal wedi rhoi'r gorau i brofi staff yn wythnosol oherwydd materion yn ymwneud â chapasiti i archebu a chynnal profion; yr amser a gymerir i ganlyniadau ddod yn ôl; a diffyg hyder cyffredinol yn y system brofi.⁴⁶

⁴³ Llywodraeth Cymru, [Cynllun rheoli'r coronafeirws: canllawiau ynghylch Iefelau rhybudd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol](#).

⁴⁴ Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru: [Cyflwyno profion COVID-19 pellach i gartrefi gofal](#), 4 Chwefror 2021

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C26

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 162

60. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog yn ddi-os y byddai rhai cartrefi unigol a allai fod â phryderon o hyd, a'i fod yn fater o ailadeiladu hyder dros gyfnod o amser. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

“We’re not at the point where we need to consider making the testing mandatory, but any home that decides to opt out needs to consider what other control measures it’s going to take, because it’s the provider that has responsibility. They’ve got indivisible statutory responsibilities for their workforce and for their residents, and I don’t think it would be an easy job for a care home to say it’s opted out of the programme that’s available if they then find that they have an outbreak and they haven’t had an alternative control method in place.”⁴⁷

61. Mewn tystiolaeth ddilynol i'r Pwyllgor, dywedodd ADSS Cymru wrthym mai prydlondeb amseroedd ar gyfer cael canlyniadau profion yw'r her fwyaf a'r prif rwystredigaeth i ddarparwyr. Cyfeiriodd at dystiolaeth anecdotaidd a ddangosodd mewn rhai achosion ei bod yn dal i gymryd hyd at 4 diwrnod i gael canlyniadau profion, a dywedodd nad oedd hynny'n dderbyniol:

“local authorities, providers and care staff must have confidence in the system, otherwise we will see increased staff opt-out of the process.”⁴⁸

62. Pan wnaethom godi'r pryderon hyn gyda'r Gweinidog yn ein cyfarfod ar 27 Ionawr, dywedodd fod hyn 'wedi dyddio ychydig', wrth i'r rhaglen symud mor gyflym:

“This morning, we’ve already published updated information on the last week, and it does show a significant improvement in testing. So, if you were talking to providers, say, three weeks ago, then that may have been an issue, whereas, actually, within the last week we know that 87 per cent of tests have been turned around within 48 hours.”⁴⁹

63. Dywedodd ADSS Cymru wrthym hefyd ei bod yn teimlo'n gynnar yn ystod y broses bod gofal cymdeithasol yn ôl-ystyriaeth gyda phrofi, a phan ddechreuodd ddod ar gael, roedd yn canolbwyntio ar staff cartrefi gofal yn unig. Dywedodd y bu pryder gwirioneddol ynghylch diffyg mynediad at brofion i weithwyr gofal cartref, i weithwyr mewn amgylcheddau byw â chymorth, ac i weithwyr cymdeithasol sy'n mynd allan i gynnal asesiadau diogelu wyneb yn wyneb. Dim ond ar 14 Rhagfyr y

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 63

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, C87a

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 50

dechreuwyd cyflwyno profion asymptomatig rheolaidd ar y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach (y tu hwnt i gartrefi gofal). Cyn hyn, dim ond os oedd rhywun yn dangos symptomau'r coronafeirws y gellid cael mynediad at brofion. Dywedodd Nicola Stubbins wrthym:

“Obviously, care homes have been a priority, not just for directors of social services, but obviously for Welsh Government as well, but there has been some real concern around lack of access to testing for domiciliary care workers, for workers in supported living environments, for social workers who are going out to do face-to-face safeguarding assessments. So, a whole range of the social care workforce and difficulties in having access to testing.”⁵⁰

64. Galwodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd am brofi gweithwyr gofal cartref yn amlach, ac unrhyw weithwyr sy'n gofalu am bobl a oedd mewn perygl arbennig o gael y feirws. Dywedodd Llinos Medi, Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn:

“[...] mae diogelu pobl sydd yn derbyn gofal yn eu cartref eu hunain yn bryder mawr i ni. Rydym ni wedi rhannu'r negeseuon yna. Mae negeseuon yn cael eu clywed, ond eto, dydyn ni ddim wedi gweld gweithred o ran sut rydym ni'n mynd i brofi hynny. [...]rydym yn arbennig yn ymwybodol bod y sector gwasanaethau cymdeithasol, gofalu yma—dydy o ddim yn eang iawn. Mae denu pobl i'r maes yn heriol, felly mae o'n her i bob un o'r awdurdodau i wneud yn siŵr bod gennym ni ddigon o ofalwyr i ofalu. Felly mae eu diogelu nhw rhag y feirws yn hanfodol hefyd.”⁵¹

65. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y penderfyniad i beidio â chynnwys gweithwyr gofal cartref yn y rhaglen brofi asymptomatig gychwynnol yn ymwneud â chapasiti ac adnoddau. Yn ogystal, bu'n rhaid cael caniatâd gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd i ganiatáu i rai o'r profion gael eu defnyddio o dan fodel hunan-brofi, gan fod y profion llif unffordd wedi'u bwriadu'n wreiddiol ar gyfer profion dan oruchwyliaeth. Dywedodd fod y penderfyniad wedi'i wneud ym mis Tachwedd i gyflwyno profion ar gyfer staff gofal cartref a staff gofal cymdeithasol eraill, ac y byddai hyn yn cael ei integreiddio i raglen profi'r gweithlu gofal iechyd a gofal cymdeithasol:

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 160

⁵¹ Cofnod y Trafodion, 23 Medi 2020, paragraff 261

“It’s not just about domiciliary care workers of course; it’s all those mobile health and care workers as well, because we recognise that there are some concerns that the staff have about their own safety, but crucially, they’re also concerned about potentially taking the virus between a range of different and vulnerable clients as well. So, the programme is in much better shape now than it was in November and December, because decisions were only made in November to make this significant step forward in the programme, as, indeed, the tools came on board.”⁵²

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

66. Diffyg cyfarpar diogelu personol priodol oedd un o’r problemau mwyaf yn nyddiau cynnar argyfwng COVID-19. Mae cyfarpar diogelu personol yn hanfodol er mwyn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer gofalu am bobl â’r coronafeirws ac osgoi heintio’r rhai sy’n rhoi ac yn derbyn gofal. Roedd yn destun pryder mawr, felly, ein bod ni, ar brydiau, wedi dod o fewn dyddiau i redeg allan.⁵³

67. Mae tystiolaeth gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn nodi, er bod y cyflenwad o gyfarpar diogelu personol wedi gwella’n sylweddol dros y misoedd diwethaf, y mae’n rhaid i ni fod yn ymwybodol o’r galw drwy gyfnod y gaeaf hwn, sydd wedi gweld amrywiaeth o achosion lleol, ac a allai roi pwysau ar gyflenwadau.⁵⁴

68. Dywedodd Nicola Stubbins wrthym:

“Considerable work [has been] done between directors of social services and Welsh Government, and also with the NHS shared services partnership, around the chain of supply of PPE. [] my own equipment stores, where we stock our PPE supplies, has had to move location three times now to accommodate the volume that we have had through our own procurement routes, but also, obviously, through Welsh Government supply chains.

... it’s always a concern because we don’t know what the future holds. Obviously, we’re all very, very hopeful, and there’s some positivity

⁵² Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 56

⁵³ Llywodraeth Cymru, [sesiwn frifio coronafeirws, 21 Ebrill 2020](#).

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C87

around vaccines, but I think we're still planning for a very challenging winter and ensuring that the supply can meet the demand.”⁵⁵

69. Fodd bynnag, mae ymddangosiad amrywiolion newydd o COVID-19, y credir eu bod yn fwy trosglwyddadwy na'r feirws gwreiddiol, wedi arwain at Gymdeithas Feddygol Prydain a'r Coleg Nyrso Brenhinol yn codi cwestiynau ynghylch addasrwydd y cyfarpar diogelu personol presennol ac a oes angen lefel uwch o amddiffyniad erbyn hyn.⁵⁶

70. Mewn gohebiaeth dyddiedig 15 Chwefror 2021, cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn y canllawiau ar Atal a Rheoli Heintiau ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol:

“... mae'r canllawiau hyn yn cael eu defnyddio ledled y DU ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r data diweddaraf. Cafodd y canllawiau Atal a Rheoli Heintiau eu hystyried yn ddiweddar yng ngoleuni'r amrywiolion newydd ac nid yw ein sefyllfa o ran cyfarpar diogelu personol wedi newid yn y canllawiau sydd newydd gael eu cyhoeddi. Bydd y canllawiau, ac o ganlyniad ein sefyllfa o ran cyfarpar diogelu personol, yn cael eu hadolygu'n gyson wrth i ragor o dystiolaeth a data fod ar gael.”⁵⁷

Ein barn ni

71. Mae'r dystiolaeth a glywsom mewn perthynas ag oedi yn yr amseroedd prosesu i gael canlyniadau profion staff a phreswylwyr cartrefi gofal yn destun pryder, gan fod hyder yn y rhaglen brofi yn hollbwysig i'w llwyddiant. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod materion capasiti mewn Labordai Goleudy tua diwedd y llynedd wedi arwain at ôl-groniadau dros dro yn y labordai a oedd yn effeithio ar yr amser rhwng cynnal prawf a'i ddychwelyd. Rydym yn croesawu'r sicrwydd gan y Gweinidog bod yr amseroedd prosesu wedi gwella, ond credwn y bydd angen monitro hyn er mwyn sicrhau bod canlyniadau profion yn parhau i gael eu dychwelyd cyn gynted â phosibl. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod o fewn 24 awr ar ôl cynnal y prawf, ac yn sicr ni ddylai fod yn hwyrach na 48 awr.

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 150

⁵⁶ Cymdeithas Feddygol Prydain: [call for enhanced PPE](#) Ionawr 2021; Y Coleg Nyrso Brenhinol: [RCN calls for higher level precautionary PPE and tells government to 'stop dragging its feet'](#) Ionawr 2021

⁵⁷ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 24 Chwefror 2021, [Papur 12](#)

72. Rydym yn croesawu cyflwyno profion ar gyfer staff gofal cartref a staff gofal cymdeithasol eraill ond teimlwn, unwaith eto, fod hyn wedi dod yn rhy hwyr. Rydym wedi galw ers amser maith am barch cydradd rhwng gweithwyr gofal cymdeithasol â'u cydweithwyr yn y gwasanaeth iechyd. Mae cydraddoldeb o'r fath yn cael ei danseilio pan anwybyddir anghenion grwpiau arwyddocaol o staff gofal cymdeithasol, a'r rhai y maent yn darparu gofal ar eu cyfer.

73. Rydym yn cymeradwyo'r gwaith a wnaed i sicrhau cyflenwadau digonol o gyfarpar diogelu personol, ond byddem yn rhybuddio rhag hunanfodlonrwydd, yn enwedig yng ngoleuni'r amrywiolion newydd sy'n dod i'r amlwg, a allai fod angen lefel uwch o amddiffyniad. Bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru fonitro effeithiolrwydd cyfarpar diogelu personol mewn perthynas â'r amrywiolion newydd, i ddiweddarau'r canllawiau os oes angen, ac i gyfathrebu'n effeithiol â'r sector gofal cymdeithasol i roi sicrwydd bod y cyfarpar diogelu personol sydd ar gael yn darparu amddiffyniad priodol.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r amseroedd prosesu i gael canlyniadau profion ar gyfer staff cartrefi gofal a phreswylwyr er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu dychwelyd cyn gynted â phosibl. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod o fewn 24 awr ar ôl cynnal y prawf, ac yn sicr ni ddylai fod yn hwyrach na 48 awr.

Argymhelliad 6. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i gynnal cyflenwadau digonol a chynaliadwy o gyfarpar diogelu personol sy'n bodloni'r safonau ansawdd a argymhellir, monitro ei effeithiolrwydd mewn perthynas â'r amrywiolion newydd, a chyfathrebu'n effeithiol â'r sector gofal cymdeithasol i roi sicrwydd bod y cyfarpar diogelu personol sydd ar gael yn darparu amddiffyniad priodol.

Pwysau ariannol a phwysau o ran staff

74. Yn ein hadroddiad cyntaf⁵⁸, fe glywsom gan nifer o dystion ynghylch natur fregus y sector gofal yng Nghymru cyn y pandemig, a sut cafodd y broblem hon ei gwaethygu gan yr argyfwng y coronafeirws.

75. Dywed ADSS Cymru ei fod yn ymwybodol iawn o'r pryderon sydd gan rai darparwyr gofal, yn enwedig darparwyr gofal preswyl, ynghylch gallu goroesi yn y tymor byr, yn enwedig mewn perthynas â phwysau ychwanegol o ran costau ar gyfer cyfarpar diogelu personol, yswiriant atebolrwydd, staffio a phwysau swyddi

⁵⁸ Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 1](#), Gorffennaf 2020

gwag oherwydd COVID. Dywed ADSS mai dyma pam y mae wedi cyd-gynhyrchu a chyhoeddi canllawiau⁵⁹ i alluogi comisiynwyr awdurdodau lleol i gefnogi eu darparwyr gofal. Fodd bynnag, mae'n dweud, er bod y canllawiau wedi cael ymateb da, mae risg o hyd y gallai rhai cartrefi gofal gael trafferthion ariannol mawr heb rywfaent o gymorth ychwanegol.

“Failures in the sector could see homes being returned to the public sector, but it comes at a time when local authorities and other providers have limited or no capacity to intervene. This means that capacity would be lost from the sector. Moreover, it would also have a significant impact on the ability to support the hospital discharge process (Discharge to Recover and Assess – D2RA), which will result in an even greater pressure being placed on domiciliary care.”⁶⁰

76. Mae'r dystiolaeth gan ADSS Cymru yn nodi bod y pandemig wedi gwaethygu sefyllfa ariannol llawer o ddarparwyr gofal sydd eisoes yn fregus ac yn dweud bod hyn yn bwrw amheuaeth o ran hyfywedd hirdymor nifer o ddarparwyr gofal yn y farchnad, yn enwedig yn y farchnad gofal preswyl.⁶¹

77. Tynnodd ADSS Cymru sylw hefyd at y cynnydd yn y galwadau am wasanaethau a'r pwysau y mae darparwyr gofal cartref yn eu teimlo, yn enwedig mewn perthynas ag adsefydlu cleifion ar ôl COVID sydd wedi treulio cyfnodau hir yn yr ysbyty neu sy'n dioddef Syndrom ôl-COVID (COVID hir). Nododd y bydd COVID hir yn parhau i fod yn bwysau newydd yn y tymor hir, gyda grŵp arall o unigolion efallai nad oedd angen gofal cymdeithasol arnynt cyn y coronafeirws.⁶²

78. Ym mis Ebrill 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £40 miliwn yn ychwanegol i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion yn ystod pandemig y coronafeirws.⁶³ Er ei fod yn croesawu'r ymrwymiad hwn, dywedodd ADSS Cymru fod ganddo bryderon sylweddol o hyd ynghylch darparwyr yn goroesi yn y tymor byr, yn enwedig pe bai trydedd don, a allai roi straen digynsail ar y system gofal cymdeithasol:

“The hardship fund has been of great value. It's really, really helped in terms of maintaining the viability of some of those care homes. It's

⁵⁹ Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion Cymru, [DIWEDDARIAD ar y Coronafeirws \(Covid-19\): Cefnogaeth i Ddarparwyr a Comisiynwyd](#)

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, C87

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C87

⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, C87

⁶³ [£40m ychwanegol i gefnogi gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru](#)

obviously not possible for the hardship fund to cover everything, because the care homes [] balance the income that they receive from local authorities with income they get from other sources []. So, in terms of does that mean that they are financially viable now, I suspect we know that they continue to be in a challenging position".⁶⁴

79. Dywed ADSS Cymru ei bod yn hanfodol i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu pecynnau digonol o gymorth ariannol yn y tymor byr a'r tymor canolig, er mwyn galluogi darparwyr i oroesi'r cyfnod heriol ac ansicr hwn. Maent o'r farn bod angen i gyllid ychwanegol fod ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer darparwyr a gomisiynwyd, yn ogystal â chyn lleied o amodau â phosibl i sicrhau bod hyblygrwydd yn lleol i ymateb i amgylchiadau lleol.⁶⁵

80. Mae pryderon tebyg wedi dod i'r amlwg o Arolwg Rownd Gwariant Gwasanaethau Lleol diweddar Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o awdurdodau lleol yng Nghymru, a ddaeth o hyd i faterion penodol mewn perthynas â'r effaith ar wasanaethau gofal cymdeithasol a arweinir gan alw a breuder posibl darparwyr gofal preifat llai a gomisiynir gan y cyngor.⁶⁶

81. O ran symud ymlaen, dywed ADSS Cymru fod angen y gronfa galedi o hyd:

"We are still in a very, very challenging position in terms of the pandemic. So, very specifically, one call would be that those pressures continue to be recognised and, clearly, assisting care homes to remain viable during this. But obviously, there's a longer term ask in terms of supporting us to meet the real increases in costs across the care sector over a period of time."⁶⁷

82. Mewn gohebiaeth dyddiedig 15 Chwefror 2021, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r gronfa caledi, a'r cymorth ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol, yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth ond fe wnaeth gydnabod y pryderon a godwyd am hyn gan bartneriaid yng nghyd-destun y pandemig parhaus:

"Dywedodd y Gweinidog Cyllid yn y gyllideb ddrafft y byddwn yn adeiladu ar y nifer fach o ddyraniadau ar gyfer ymateb i Covid dros yr wythnosau nesaf ac yn y Gyllideb derfynol, unwaith y gallwn wneud

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 128

⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C87

⁶⁶ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, [Tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Llywodraeth Cymru 2021-22](#), 2 Rhagfyr 2020

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 129

asesiad gwell ynglŷn â'r ffordd orau o dargedu cyllid yn 2021-22. Yn benodol, ystyried pa gyllid ychwanegol sydd ei angen i gefnogi'r GIG a llywodraeth leol wrth iddynt chwarae rhan flaenllaw yn ein hymateb i'r pandemig.

Bydd yr angen am gefnogaeth barhaus ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yn cael ei ystyried ochr yn ochr â phwysau eraill ar lywodraeth leol yn y cyd-destun hwnnw.”⁶⁸

83. Yn ogystal â'r pwysau ariannol ar draws y sector, cafwyd nifer o adroddiadau bod cartrefi gofal dan bwysau oherwydd prinder staff a chyfraddau uchel o'r haint mewn cartrefi gofal. Er enghraifft:

- Dywedir bod Fforwm Gofal Cymru wedi dweud ei fod yn agosáu at sefyllfa lle nad oes digon o staff gofal cymdeithasol ar gael i gynnal cartrefi gofal erbyn hyn, ac mae'n ymwybodol o un cartref lle mae 95 y cant o'r staff yn hunanynysu.⁶⁹
- Mae cynghorau Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe wedi sôn am brinder nyrsys asiantaeth gyda llawer o staff i ffwrdd o'r gwaith gyda'r feirws a/neu'n hunanynysu. Nodwyd hefyd nad yw rhai nyrsys asiantaeth eisiau mynd i mewn i'r cartrefi gofal hynny lle mae achosion positif.⁷⁰
- Ar ddiwedd mis Rhagfyr, roedd 20 o gartrefi gofal yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ar y lefel risg “coch” a thri ar lefel “gwbl gritigol”, ac wedi dod yn agos at orfod symud preswylwyr i'r ysbyty am nad oedd digon o staff i ofalu amdanynt.⁷¹

84. Fe wnaeth y Dirprwy Weinidog gydnabod y problemau a gododd cyn y Nadolig:

“In the case of Swansea, Neath and Port Talbot, they have set up a system with this rapid response team, and fortunately, they were able to prevent the worst from happening. And there have been other incidents in Wales and we've got through them, shall we say? But it has

⁶⁸ Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 24 Chwefror 2021, [Papur 12](#)

⁶⁹ Wales Online, [Welsh Government accused of ignoring experts' advice by failing to upgrade PPE](#), 19 Ionawr 2021

⁷⁰ Wales Online, [Council leader having sleepless nights as care homes experiencing staff shortages](#), 22 Rhagfyr 2020

⁷¹ Wales Online, [Swansea care home residents close to being moved en masse to hospital because of staff shortage](#), 18 Rhagfyr 2020

been very difficult and there has been a lot of pressure and it has meant everybody working together. I think the key message is the barriers between local authorities, the private providers, the health service and neighbouring local authorities—everybody has to work together and that's how they've got through those difficult issues.”⁷²

85. Cadarnhaodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn cyfarfod yn wythnosol â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatrys heriau fel y rhai a gafwyd yng Nghastell-nedd ac Abertawe, a hefyd i rannu arfer gorau a sicrhau ei fod yn cael ei rannu'n gyflym:

“I think, through a very difficult period, it has been truly a tremendous response by all partner organisations, by local authorities redeploying staff, by health boards redeploying staff and by providers themselves. So, it really has been a tremendous response by partners to keep the services going and ensure that those care home residents receive the care and support that they deserve.”⁷³

86. Fodd bynnag, ni ddylid tanbrizio effaith profiadau pobl o weithio ym maes gofal cymdeithasol drwy gydol y pandemig yn y tymor hwy. Dywedodd Fforwm Gofal Cymru wrthym:

“We've seen staff lose residents they've developed a relationship with, we've seen them see themselves and other colleagues potentially contract COVID-19 as well. I think there is an enormous amount of trauma in the sector.”⁷⁴

87. Tynnodd ADSS Cymru sylw hefyd at effaith ddinistriol y pandemig ar bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol; yn enwedig gofal preswyl, a thynnodd sylw at yr ystadegau bod gweithwyr gofal cymdeithasol ddwywaith yn fwy tebygol o farw o'r coronafeirws o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol:

“The intense pressure on these workers and the impact on their current and future mental health and wellbeing continues to be a source of concern for ADSS Cymru's members.”⁷⁵

⁷² Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 32

⁷³ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 36

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, 7 Mai 2020, paragraff 182

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, C87

88. Ar ben hynny, mae angen i ofal cymdeithasol gael ei ystyried yn yrfa ddeniadol er mwyn annog mwy o bobl i weithio yn y sector. Rydym wedi tynnu sylw ers tro at yr angen am gydraddoldeb rhwng gweithwyr gofal cymdeithasol a'u cydweithwyr yn y GIG, o ran cyflog a thelerau ac amodau. Dywedodd Nicola Stubbins o ADSS Cymru wrthym:

“I firmly believe that social care deserves parity of esteem with our NHS colleagues. And I think, to a certain extent, the pandemic has helped to make the social care workforce visible in a way that it hasn't been before.”⁷⁶

89. Aeth yn ei blaen i ddweud y canlynol:

“In order to have that parity with NHS, we absolutely have to have a sustainable, long-term funding settlement for social care. And it isn't just about the pay, it is about terms and conditions, it is about it being a career, a professional career that is valued the way that we have always valued NHS roles.”⁷⁷

90. Yn ystod ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

“Rydyn ni wedi bod yn ceisio proffesiynoli'r gweithlu hefyd trwy ymgyrch recriwtio a chadw WeCare Wales, Gofal Cymdeithasol Cymru, ac rydyn ni'n cael porth swyddi sydd newydd ei sefydlu. Felly, bydd modd defnyddio peth o'r arian ychwanegol sy'n mynd i Ofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi'r gweithlu ymhellach.”⁷⁸

91. Hefyd, dywedodd yr Athro Jean White, y Prif Swyddog Nyrsio, fod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn gweithio'n ddiwyd i geisio hyrwyddo gyrfa ym maes gofal cymdeithasol. Hefyd:

“The universities that prepare nurses have also been looking at placements of students to expose them to the benefits of having a career in social care.”⁷⁹

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 199

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 199

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2021, paragraff 67

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 232

92. Mewn datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“Fe wyddom fod dilyniant o ran y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael effaith sylweddol ar gyflawni canlyniadau i bobl, ac felly fe fydd yna gysylltiad cryf rhwng y fframwaith cenedlaethol a'r camau gweithredu i gefnogi'r gweithlu. Fe gaiff swyddfa genedlaethol fach ei sefydlu i ddatblygu'r fframwaith yn gynhyrchiol gyda'n partneriaid, yn arbennig mewn llywodraeth leol a'r GIG. Ar wahân i hynny, fe fyddwn ni'n sefydlu llais proffesiynol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol, ar lefel genedlaethol o fewn Llywodraeth Cymru.”⁸⁰

Ein barn ni

93. Mae breuder y sector gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn destun pryder. Rydym yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys y ddarpariaeth yn y gyllideb derfynol o £206.6 miliwn ychwanegol i gefnogi llywodraeth leol am chwe mis cyntaf 2021-22. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r tystion y bydd angen cymorth ariannol o hyd yn y tymor hwy, ac y bydd angen diwygio'r system yn y pen draw er mwyn canfod ateb hirdymor cynaliadwy.

94. Rydym yn cymeradwyo ymroddiad ein gweithlu gofal cymdeithasol wrth ymateb i'r argyfwng a chadw'r bobl y maent yn gofalu amdanynt yn ddiogel. Fodd bynnag, yn ôl ADSS Cymru mae staff gofal cymdeithasol yn cael eu hystyngiadau i raddau mwy yn awr nag ar unrhyw adeg yn y pandemig, gyda gweithwyr yn blino'n lân ac o dan bwysau parhaus. Mae'n amlwg nad yw'r sefyllfa bresennol o ran staffio yn gynaliadwy. Cyrhaeddodd nifer o gartrefi gofal lefel gritigol ym mis Rhagfyr a gall hyn barhau i fod yn broblem, wrth i fwy o staff naill ai fynd yn sâl eu hunain neu fod angen iddynt hunanynysu. Yn y tymor hwy, wrth i Gymru adfer ar ôl y pandemig, rhaid inni gydnabod y bydd angen amser a chefnogaeth ar weithwyr gofal cymdeithasol i wella o'r pwysau a'r trawma y maent wedi'u profi. Bydd angen i hyn gael ei adlewyrchu wrth gynllunio'r gweithlu a chyrchu adnoddau. Ar ben hynny, mae angen i ofal cymdeithasol gael ei ystyried yn yrfa ddeniadol er mwyn annog mwy o bobl i weithio yn y sector.

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 9 Chwefror 2021, paragraff 232

95. Er ein bod yn croesawu datblygu strategaeth ar y cyd ar gyfer y gweithlu iechyd a'r gweithlu gofal cymdeithasol⁸¹, ni fydd hyn ar ei ben ei hun yn sicrhau parch, triniaeth neu amodau cydradd rhwng y ddau sector.

96. Rydym yn falch bod cyfraniad enfawr y gweithlu gofal cymdeithasol wedi cael ei gydnabod ond rydym yn gresynu ei fod wedi cymryd pandemig byd-eang iddynt gael y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gofal Cymdeithasol Cymru i broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol yn sicrhau parch cydradd â'r gweithlu gofal iechyd, a sefydlu llwybrau gyrfa clir ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael tâl priodol.

Hawliau dynol

97. Ym mis Mai 2020, fe wnaeth y Comisiynydd Pobl Hŷn gyfeirio Llywodraeth Cymru at y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) i'w hymchwilio oherwydd pryderon efallai nad yw hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal wedi cael eu diogelu ddigon.⁸² Ym mis Gorffennaf cyhoeddodd y Comisiynydd a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ddatganiad ar y cyd yn dweud:

“Rydym yn rhannu pryderon am faterion arwyddocaol gan gynnwys enghreifftiau o benderfyniadau gofal iechyd cyffredinol amhriodol ar faterion megis hysbysiadau Na cheisier dadebru cardio-anadlol, yr ymateb araf gan Lywodraeth Cymru i sicrhau profion digonol i breswylwyr a staff cartrefi gofal, a symud pobl hŷn a oedd yn ymddangos wedi profi'n bositif i Covid-19 o ysbytai i gartrefi gofal.”⁸³

98. Mae papur briffio'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gydraddoldeb a hawliau dynol mewn gofal preswyl yng Nghymru yn ystod y coronafeirws a gyhoeddwyd ym mis Hydref yn dweud:

“There is evidence that equality and human rights standards have not been upheld, including in key decisions about care home admissions, visits and access to critical care.”⁸⁴

⁸¹ Cymru Iachach: [Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#), Hydref 2020

⁸² Comisiynydd Pobl Hŷn, [Comisiynydd yn galw am ymchwiliad ar hawliau pobl hŷn](#), 21 Mai 2020

⁸³ [Datganiad ar y cyd â Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru](#), 21 Gorffennaf 2020

⁸⁴ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, [Equality and human rights in residential care during coronavirus. 20 Hydref 2020: Briefing for Wales](#), 20 Hydref 2020

99. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn ei bod hi a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn teimlo bod bylchau o hyd yn y dystiolaeth yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi iddynt o ran i ba raddau y gallai ddangos ei bod wedi cyflawni ei rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol yn ystod y pandemig. Aeth ymlaen i ddweud nad yw hi a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cael lefel y sicrwydd y maent am ei chael eto a'u bod wedi gofyn am ragor o wybodaeth a thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru.⁸⁵

100. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog ym mis Ionawr 2021 bod trafodaethau'n cael eu cynnal â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:

“We have been in correspondence with them about the rights of older people, and we've recently responded to some of those queries at great length, and we are in a dialogue with them. We're certainly looking at the issues that they have raised.”⁸⁶

Ein barn ni

101. Roeddem yn bryderus iawn i glywed casgliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bod tystiolaeth nad yw safonau cydraddoldeb a hawliau dynol wedi cael eu cynnal, gan gynnwys mewn penderfyniadau allweddol ynghylch derbyn pobl i gartref gofal, ymweliadau a mynediad at ofal critigol. Mae hyn yn annerbyniol.

102. Nodwn hefyd sylwadau'r Comisiynydd Pobl Hŷn ei bod yn dal i aros am lefel y sicrwydd sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru bod hawliau'n cael eu cynnal a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ddatrys hyn fel mater o frys a sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu diogelu a'u cynnal o hyn ymlaen.

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i sicrhau bod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u cynnal. Rydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at bwyllgor y Chweched Senedd sy'n gyfrifol am bobl hŷn ar ddechrau'r Chweched Senedd i egluro'r hyn sydd wedi cael ei wneud i ddatrys y pryderon a godwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Comisiynydd Pobl Hŷn.

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 131

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 24

3. Gofalwyr di-dâl

103. Pan gyhoeddwyd ein hadroddiad ar effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr ym mis Tachwedd 2019, amcangyfrifwyd bod 370,000 o ofalwyr yng Nghymru, gyda dros 100,000 o bobl yn darparu dros 50 awr o ofal di-dâl yr wythnos. Yn ôl Gofalwyr Cymru, mae'r nifer hwn wedi codi i 683,000 o ofalwyr yn ystod y pandemig.⁸⁷

Yr effaith ar ofalwyr

104. Canfu ymchwil a wnaed gan y Gymdeithas Alzheimer's⁸⁸ fod 83 y cant o ofalwyr teuluol wedi nodi dirywiad yn symptomau eu hanwyliaid gan fod y cyfyngiadau symud wedi achosi ynysigrwydd cymdeithasol. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod cyfrifoldebau gofalu y rhan fwyaf o ofalwyr wedi cynyddu gyda'r pandemig a dywedodd 69 y cant eu bod yn teimlo'n flinedig iawn drwy'r amser. Dywedodd yr elusen bod ei llinell gymorth Dementia Connect⁸⁹ wedi cael nifer uchel iawn o alwadau gan bobl sy'n ei chael hi'n anodd gofalu am bobl â dementia bob awr o'r dydd, gan ddweud eu bod yn gwbl lluddedig.

105. Dywedodd Gofalwyr Cymru wrthym fod llawer o ofalwyr di-dâl wedi'u gwthio i'r eithaf a bod angen gweithredu ar frys i gefnogi gofalwyr.⁹⁰ Canfu eu hymchwil fod 68 y cant o ofalwyr yn pryderu a fyddant yn gallu ymdopi pe bai rhagor o gyfyngiadau symud. Dywedodd Claire Morgan wrthym:

“I think it's fair to say that most carers are reporting their health is much worse than before the pandemic, due to their caring responsibilities. So, from both a mental health and a physical health perspective.”⁹¹

106. Roedd Age Cymru yn cytuno bod y pandemig yn cael effaith fawr ar y rhai sy'n darparu gofal di-dâl, gyda phobl yn gorfod ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, fel gofal personol, oherwydd bod pecynnau gofal yn cael eu cwtogi. Tynnodd sylw at y pwysau aruthrol ar ofalwyr sy'n deillio o beidio â chael

⁸⁷ Gofalwyr Cymru, [It's time for unpaid carers in Wales to be recognised as the third pillar of our health and social care system](#), 5 Tachwedd 2020

⁸⁸ Cymdeithas Alzheimer's, [Worst hit: dementia during coronavirus](#), Medi 2020

⁸⁹ Cymdeithas Alzheimer's, [Llinell gymorth Dementia Connect Cymdeithas Alzheimer's](#) [cyrchwyd Chwefror 2021]

⁹⁰ Gofalwyr Cymru, [It's time for unpaid carers in Wales to be recognised as the third pillar of our health and social care system](#), 5 Tachwedd 2020

⁹¹ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 14

mynediad at eu rhwydweithiau cymorth arferol a seibiant. Soniodd hefyd am y pwysau ychwanegol ar ofalwyr hŷn, sy'n aml yn ei chael hi'n anodd ar eu pennau eu hunain gyda llai o gymorth gan wasanaethau gofal, naill ai am fod y gwasanaethau wedi'u lleihau neu am eu bod yn pryderu ynghylch gadael i staff gofal ddod i'w cartrefi.⁹²

107. Talodd y Dirprwy Weinidog deyrnged i waith gofalwyr di-dâl:

“Unpaid carers are obviously some of the people who have suffered most in the pandemic and I think we all know the tremendous amount of work that they've had to put in for their loved ones. Many have taken on more responsibilities during this period. I know that some carers have not had additional help into the house that they've had before because they've been afraid of infection, and they're doing all they can to care for their loved ones. It is a matter of great concern and we are very concerned about how they are coping and have been doing all we can to support them.”⁹³

Mynediad at wasanaethau

108. Daeth darpariaethau yn Neddf frys y Coronafeirws 2020 y DU i rym ar ddechrau'r pandemig i 'addasu' dyletswyddau awdurdodau lleol dros dro. Os caiff yr 'addasiadau' eu cymhwyso, gall awdurdod lleol flaenoriaethu gwasanaethau, gellir lleihau rhai pecynnau gofal a chymorth, a dod â rhai gwasanaethau i ben. Hefyd, nid oes dyletswydd i gynnig dewis o lety gofal mwyach.

109. Mae sawl tyst wedi codi pryderon hefyd am y baich y mae'r newidiadau hyn yn eu rhoi ar ofalwyr di-dâl, a hynny o bosibl ar yr union adeg y mae eu gwasanaethau cymorth eu hunain, fel gofal seibiant, yn cael eu dileu. Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn, am weld y pwerau hyn yn cael eu dirymu yng Nghymru.⁹⁴

110. Wrth roi tystiolaeth ym mis Medi 2020, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym nad oedd yn ymwybodol o unrhyw awdurdodau lleol a oedd wedi gorfod defnyddio'r pŵer hwn i raddau helaeth, naill ai o ran cwtogi neu ddileu pecynnau gofal.⁹⁵

⁹² Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2020, paragraff 65

⁹³ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 70

⁹⁴ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2020, paragraff 133

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, 23 Medi 2020, paragraff 296

111. Fodd bynnag, dywedodd sefydliadau a oedd yn cynrychioli gofalwyr wrthym fod gwahaniaeth rhwng addasiadau ffurfiol a'r hyn sydd wedi bod yn digwydd ar lawr gwlad o ran y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu, a'r effaith gyfatebol ar ofalwyr.

112. Yn ôl Llinos Roberts o'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr:

“Dwi'n meddwl efallai dydyn nhw ddim wedi gwneud newidiadau, ond roedd y newidiadau'n digwydd oherwydd y pandemig pa un bynnag, wedyn roedd gwasanaethau wedi cael eu stopio. Roedd gofalwyr yn ofnadwy o bryderus am dderbyn gwasanaethau. Wedyn, mewn gwirionedd, doedd dim rhaid iddyn nhw gymryd mantais o'r newidiadau i'r Ddeddf, oherwydd roedd o'n digwydd pa un bynnag.”⁹⁶

113. Roedd Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn cefnogi hyn:

“I think local authorities have said that they were still able to undertake carers' needs assessments, for example. But, actually, even before the pandemic, there were huge waiting lists for carers' needs assessments. Many of the assessments that were being offered were online or over the phone; which was not ideal, obviously, for people in very vulnerable situations. So, as Llinos and Simon have said, whilst they might not have instigated those, there's been absolutely an impact on carers.”⁹⁷

114. Pwysleisiodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru a Gofalwyr Cymru y pwynt hefyd mai dim ond canran fach iawn o bobl, hyd yn oed cyn y pandemig, oedd yn cael cymorth drwy becyn awdurdod lleol. Dywedodd Sue Phelps o Gymdeithas Alzheimer's Cymru wrthym:

“over 50 per cent [of people living with dementia] said that they hadn't had a care support package in place even before the pandemic, so those people weren't getting anything at all, never mind just a reduction.”⁹⁸

115. Yn ddiweddar, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar newidiadau posibl i Ddeddf y Coronafeirws 2020 i gynnal neu ddileu'r 'addasiadau' i

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 21

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 24

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2020, paragraff 7

ddyletswyddau gofal a chymorth awdurdodau lleol.⁹⁹ Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

“We consulted on that, and we had a big response [] about 100 responses. The majority felt strongly that we should change the modification that we had put in []. So, we have signalled that we intend to change it when it’s possible for us to do it, but before the end of March.”¹⁰⁰

116. Pan ofynnwyd pam na ellid dileu’r addasiad ar unwaith, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“Because we’re at a very high state of the pandemic at the moment, local authorities have expressed concern and have been worried about changing it, because they want to have the safeguard of feeling that they can change the support that they’re giving []. And so, the local authorities did ask us not to revert back to what is the normal run of things. So, it’s really in consideration of trying to reach a balance that we’ve decided that, yes, we feel we must do this. But it does take time to set up in any case. So, we’ve indicated that we feel it should be done by the end of March.”¹⁰¹

Gofal seibiant

117. Dywedodd elusennau gofalwyr wrthym fod mynediad at ofal seibiant wedi gwaethygu’n bendant¹⁰² drwy gydol y pandemig. Dywedodd Llinos Roberts o’r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr:

“Mae yna brinder gofal seibiant wedi bod ers blynyddoedd. Mae pawb yn ymwybodol o hynny. Yn ystod y pandemig, mae gofal seibiant wedi bod yn rhywbeth sydd ddim yn bodoli, mi fuaswn i’n dweud.”¹⁰³

118. Cawsom nifer o ymatebion unigol gan ofalwyr di-dâl sy’n tynnu sylw at yr effaith y mae diffyg seibiant yn ystod y pandemig yn ei chael ar eu bywydau:

⁹⁹ Llywodraeth Cymru, [Deddf y Coronafeirws 2020 a gofal cymdeithasol yng Nghymru](#), 6 Hydref 2020

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 75

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 77

¹⁰² Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 30

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 28

“I am a full-time carer for my 92 year old mother who has dementia. Before lockdown, it was extremely difficult, time-consuming and frustrating to obtain respite care for my mother so I could have a break. It was very hit and miss and several much needed breaks had to be cancelled, including simple weekends to go and stay with my son. Now of course there is no respite at all. This is putting an enormous strain on me as a carer (I have several debilitating health conditions myself) and it’s affecting my physical and mental health.”¹⁰⁴

“Mae’n golygu llawer o waith ychwanegol oherwydd bod y clybiau a’r gweithgareddau yr âi fy mam iddynt wedi cau. Rhaid i mi lanhau gan fod y glanhawyr wedi stopio. Mae’n straen ychwanegol oherwydd ei fod yn cyfyngu ar yr amser y gallaf wneud pethau yn fy nghartref fy hun.”¹⁰⁵

119. Dywedodd Gofalwyr Cymru wrthym nad oedd rhai gofalwyr am i’w hanwyliaid fynd i ofal seibiant yn nyddiau cynnar y pandemig, oherwydd eu bod yn pryderu am y risg o gael eu heintio. Fodd bynnag, wrth i’r pandemig barhau, ac wrth i ofalwyr gyrraedd pen eu tennyn, roeddent yn ysu mwy am seibiant. Dywedodd Claire Morgan wrthym:

“Through our ‘Track the Act’ research work in June, we asked local authorities what they’d done around respite support, and some local authorities had been instigating more emergency respite provision. But obviously, that was not as widespread as we would have liked to have seen.”¹⁰⁶

120. Aeth ymlaen i ddweud bod Gofalwyr Cymru wedi cael rhywfaint o arian gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi ei alluogi i sefydlu sesiynau ‘Me Time’: sesiynau ar-lein i ddod â gofalwyr at ei gilydd a chynnig seibiant iddynt o’u cyfrifoldebau gofalu am awr neu ddwy i wneud rhywbeth hollol wahanol. Roedd hyn wedi cynnwys sesiynau ar reoli straen a phryder, crefft a bingo a hyd yn oed taith gerdded rithwir o Machu Picchu.¹⁰⁷

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, C33

¹⁰⁵ Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad Arolwg Terfynol](#), Medi 2020

¹⁰⁶ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 31

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 31

121. Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi galw am gronfa seibiannau byr sy'n edrych yn benodol ar gefnogi ffyrdd mwy creadigol o ddarparu seibiant a'i ddiffinio.¹⁰⁸

122. Yn yr un modd, dywedodd Oxfam Cymru:

“Mae'r gweithredu ar yr hawl i seibiant yn llai na'r hyn sydd ei angen, ac rydym yn cefnogi galwadau Gofalwyr Cymru am “gyllid a dewis o wasanaethau o ansawdd i alluogi gofalwyr i gael y seibiannau sydd eu hangen arnynt”. Canfu'r ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr y gall fod yn anodd cael mynediad i ofal seibiant, a bod diffyg darpariaeth, a diffyg hyblygrwydd hefyd. Ers 2017-18, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £3 miliwn o gyllid cylchol i lywodraeth leol ar gyfer cymorth seibiant trwy'r Grant Cymorth Refeniw, ond nid yw'r arian hwn wedi'i glustnodi ac felly mae monitro a gwerthuso gwariant awdurdodau lleol ar seibiant yn hanfodol.”¹⁰⁹

123. Ym mis Ionawr 2021, fe wnaeth y Dirprwy Weinidog gydnabod pwysigrwydd gofal seibiant a'r anawsterau o ran cael gafael arno:

“It's been almost impossible to take advantage of any respite that may have existed because of the dangers of infection. [] we are looking at respite [] to see if there is anything more that we can do to help. So, we have put in additional things besides the statutory funding, —and we've got numerous forums where we're hearing cases and the direct voices of carers.”¹¹⁰

124. Mewn gohebiaeth bellach dyddiedig 15 Chwefror 2021, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar y darlun ehangach o ran sut yr oedd gofalwyr am gael gafael ar gymorth seibiant priodol ac amserol:

“mae swyddogion wrthi'n dadansoddi mwy na 80 o ymatebion i'n hymgyngoriad cyhoeddus er mwyn datblygu cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gofalwyr. Cafodd cwestiynau penodol am seibiant a gwyliau byr eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori ac rydym yn ystyried y safbwyntiau hyn ac enghreifftiau o arferion da. Mae ein Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr hefyd wedi bod yn trafod seibiant fel

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 112

¹⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, C82

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 73

mater allweddol ar gyfer gofalwyr, a byddan nhw'n gweithio gyda ni i weld beth yw'r ffordd orau i sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ddarparu seibiant a / neu wyliau byr, i ofalwyr o bob oed.”¹¹¹

Ein barn ni

125. Rydym yn cytuno â Gofalwyr Cymru na roddwyd digon o gydnabyddiaeth i ofalwyr di-dâl fel trydydd piler hanfodol y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

126. Rydym yn gwybod yn barod o'n hymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr¹¹² mai gofalwyr di-dâl yw conglfaen gofal yn y gymuned, sy'n gyfrifol am ddarparu'r mwyafrif helaeth o ofal yng Nghymru. Hebddynt, byddai'r system gofal cymdeithasol yn chwalu. Fodd bynnag, hyd yn oed cyn y pandemig, roedd gofalwyr yn cael trafferth ymdopi â gofynion bod yn ofalwr di-dâl, fel blinder, problemau iechyd corfforol a meddyliol, pryder, cael eu hynysu oddi wrth ffrindiau a theulu, a theimlad o golli hunaniaeth.

127. Yn ein hadroddiad yn 2019, fe wnaethom ragweld y byddai rôl y gofalwr yn dod yn bwysicach fyth o ystyried gofynion poblogaeth sy'n heneiddio ag anghenion iechyd cynyddol gymhleth. Wrth gwrs, bryd hynny, ni allai'r un ohonom fod wedi rhagweld pandemig COVID-19 a'r effaith ddinistriol y byddai hyn yn ei chael ar ein system iechyd a gofal cymdeithasol.

128. Rydym yn bryderus iawn am yr effaith y mae diffyg rhwydweithiau cymorth, yn enwedig seibiant, yn ei chael ar ofalwyr. Mae'r ddarpariaeth o ran gofal seibiant wedi bod yn dameidiog erioed ond yn ystod y pandemig mae wedi diflannu'n llwyr. Er y bu gofalwyr, yn ddealladwy, yn amharod i ymgysylltu â gwasanaethau seibiant yn y dyddiau cynnar, wrth i amser fynd heibio, mae eu hanghenion wedi mynd yn fwy enbyd. Mae'n hanfodol bod gofalwyr yn gallu cael seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu. Rydym yn cytuno â'r rhanddeiliaid y dylid sicrhau bod mwy o ddarpariaeth o wasanaethau seibiant priodol a chynaliadwy ar gael fel mater o flaenoriaeth.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Grŵp Cyngori'r Gweinidog a sefydliadau gofalwyr i ddatblygu ffyrdd mwy creadigol o ddarparu

¹¹¹ Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 24 Chwefror 2021, [Papur 12](#)

¹¹² Gofalu am ein dyfodol: [Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 mewn perthynas â gofalwyr](#), Tachwedd 2019

seibiant ac egwyl fer. Dylai hyn gynnwys dysgu o arfer gorau mewn mannau eraill.

Gofalwyr ifanc

129. Canfu ein hadroddiad ar effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr fod plant a phobl ifanc sy'n ofalwyr yn wynebu heriau sylweddol a bod diffyg cydnabyddiaeth yn gyffredinol o ofalwyr ifanc gan wasanaethau cyhoeddus.¹¹³

130. Mae arolwg a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ar effaith y coronafeirws ar ofalwyr ifanc rhwng 12 a 17 oed ac oedolion ifanc rhwng 18 a 25 oed sy'n ofalwyr yn dangos dirywiad sylweddol yn iechyd meddwl a llesiant miloedd o bobl ifanc ledled Cymru sy'n darparu gofal di-dâl gartref i aelodau o'r teulu neu ffrindiau. Roedd y canfyddiadau yn cynnwys:

- Mae 58 y cant o ofalwyr ifanc a 56 y cant o ofalwyr sy'n oedolion ifanc nawr yn gofalu am fwy o oriau bob wythnos.
- Ar hyn o bryd, nid yw 1 o bob 5 o ofalwyr ifanc ac 1 o bob 3 o ofalwyr sy'n oedolion ifanc yn gallu cymryd unrhyw seibiant o'u rôl gofalu.
- Mae mwy na 2 o bob 3 o ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn teimlo mwy o straen.
- Mae 37 y cant o ofalwyr ifanc a bron hanner (47 y cant) y gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn dweud bod eu hiechyd meddwl yn waeth nag yr oedd cyn i'r pandemig ddechrau.
- Byddai 1 o bob 4 o ofalwyr ifanc a bron i draean (32 y cant) y gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn awyddus i gael cefnogaeth gyda'u hiechyd meddwl ond nid ydynt yn cael cefnogaeth ar hyn o bryd.¹¹⁴

131. Dywedodd Simon Hatch o Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym:

“We produced a report called ‘Support not Sympathy’, named by the young carers we work with in the Carers Trust Wales youth council

¹¹³ Gofalu am ein dyfodol: [Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 mewn perthynas â gofalwyr](#), Tachwedd 2019

¹¹⁴ Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, [Cefnogaeth nid Cydymdeimlad](#), Gorffennaf 2020

earlier this year, and that found alarmingly high levels of deterioration of mental and emotional health.”¹¹⁵

132. Mewn gohebiaeth dyddiedig 15 Chwefror 2021, fe wnaeth y Dirprwy Weinidog gydnabod bod angen ystod eang o ddulliau cymorth i helpu pob person ifanc, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn enwedig gydag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl:

“Yn 2020, gwnaethom gynhyrchu Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc a gallant gael gafael ar gymorth drwy wasanaeth llinell gymorth CALL, a gwefan a llinell gymorth MEIC. Ar 1 Chwefror, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg y bydd £9.4 miliwn ychwanegol ar gael yn benodol i gefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru, a bydd y cyllid ychwanegol yn cydnabod yr effaith y mae bod i ffwrdd o'r ysgol a rhwydweithiau cefnogi rheolaidd wedi'i chael ar bobl ifanc yn ystod y pandemig.”¹¹⁶

133. Roedd gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc a gyfrannodd at yr adroddiad Cefnogaeth nid Cydymdeimlad yn glir iawn mai'r hyn yr oeddent ei eisiau a'i angen oedd:

- Cefnogaeth ar gyfer eu llesiant emosiynol a'u hiechyd meddwl.
- Help i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a'u cymunedau.
- Seibiannau o'u rôl ofalu a chefnogaeth gwasanaethau gofalwyr ifanc arbenigol.
- Rhagor o help i gydbwyso dyletswyddau gofalu, addysg a chyflogaeth.
- Cefnogaeth i gadw'n ffit ac yn iach.¹¹⁷

134. Dywedodd Llinos Roberts o'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr wrthym ei bod wedi synnu i glywed nad oedd gofalwyr ifanc wedi mynd i ddigwyddiadau rhithwir yn yr un modd ag oedolion hŷn:

“... buasech chi'n meddwl buasai gofalwyr ifanc ar y we, wedi hen arfer efo'r cyfryngau cymdeithasol, wrth eu boddau yn mynd yn rhithiol, ond dydy hynny ddim yn wir. Felly, maen nhw wedi colli gwasanaethau

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 58

¹¹⁶ Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 24 Chwefror 2021, [Papur 12](#)

¹¹⁷ Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, [Cefnogaeth nid cydymdeimlad](#), Gorffennaf 2020

oedd yn eu tynnu nhw allan o'r sefyllfa gofalu yna ac yn mynd â nhw allan o'r cartref, oedd yn rhoi seibiant iddyn nhw, a dydyn nhw, mewn gwirionedd, ddim wedi elwa o grwpiau rhithiol yr un fath am lot o resymau. Efallai nad yw'r lle yn y cartref ddim yn ddigon preifat, efallai bod nhw ddim yn licio gwneud, efallai dydyn nhw ddim yn gyfforddus yn gwneud, wedyn mae hynny yn achosi lot mwy o bryder iddyn nhw.”¹¹⁸

135. Canfu ein hadroddiad yn 2019 bod anghysondebau yn y dull o asesu a chefnogi gofalwyr ifanc ar draws awdurdodau lleol a bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy uchelgeisiol ynghylch y gwasanaethau a'r gefnogaeth y gall pob gofalwr ifanc a phob gofalwr sy'n oedolyn ifanc ddisgwyl eu derbyn, o ran eu rôl ofalu ac yn eu bywyd ochr yn ochr â gofalu. Fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pob gofalwr ifanc a phob gofalwr sy'n oedolyn ifanc yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.¹¹⁹ Felly, mae'n siomedig clywed am yr hyn a ganlyn gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru:

“What we have shown throughout the pandemic is how much worse the situation is, even than [this] committee [], discovered when looking at this last year and prior to the ‘Caring for our future’ report.”¹²⁰

136. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y gallai gofalwyr ifanc fynd i'r ysgol fel plant sy'n agored i niwed, er bod llawer yn dewis peidio â gwneud oherwydd pryderon am gael eu heintio.

137. Aeth ymlaen i ddweud bod awdurdodau lleol wedi parhau i ddarparu gwasanaethau statudol, gan gynnwys grwpiau cymorth i ofalwyr ifanc, a oedd bellach yn cael eu darparu ar-lein:

“And I think those are really a lifeline for the young carers, because it's so important for them to be able to link up with people who are in a similar circumstance, and it does give them that support.”¹²¹

138. Tynnodd sylw hefyd at y cyllid a oedd ar gael i ddarparu gliniaduron i ofalwyr sy'n oedolion ifanc:

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 60

¹¹⁹ Gofalu am ein dyfodol: [Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 mewn perthynas â gofalwyr](#), Tachwedd 2019

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 58

¹²¹ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 81

“In a joint approach, which was funded by the Welsh Government, Digital Communities Wales, Carers Trust Wales and local authorities together are distributing up to 440 laptops to help young carers, young adult carers aged 16 or 18, who don't have access to a digital device, to carry out their caring roles.”¹²²

Ein barn ni

139. Canfu ein hadroddiad ar effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr fod gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn datblygu problemau iechyd, gan gynnwys lefelau uchel o salwch meddwl, ar gyfraddau llawer uwch na phobl ifanc eraill. Ar ben hynny, roedd eu cyfrifoldebau gofalu yn aml yn eu hatal rhag cymdeithasu â phlant a phobl ifanc eraill.

140. Gwaethygyd hyn i raddau helaeth gan addysg gartref a cholli cyfleoedd i ofalwyr ifanc gymdeithasu â'u cyfoedion yn ystod y pandemig. Rydym yn pryderu'n fawr am y dystiolaeth a glywsom gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru bod iechyd meddwl gofalwyr ifanc yn 'dirywio'¹²³ yn ystod y cyfyngiadau symud. Rydym yn cefnogi ei galwadau am gyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gofalwyr ifanc ac am flaenoriaethu ailagor cefnogaeth wyneb yn wyneb yn ddiogel.

141. Rydym yn cydnabod y cyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddarparu i roi gliniaduron i ofalwyr ifanc a chynnal grwpiau cymorth ar-lein i ofalwyr ifanc. Fodd bynnag, nid yw cymorth o'r fath yn disodli gallu cymryd ychydig oriau i ffwrdd o'u cyfrifoldebau gofalu i fwynhau ymlacio gyda ffrindiau sy'n deall yr hyn y maent yn eu hwynebu.

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gofalwyr ifanc a blaenoriaethu ailagor cefnogaeth wyneb yn wyneb yn ddiogel i ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc.

Statws gofalwyr di-dâl

142. Bu diffyg cydnabyddiaeth systematig ar gyfer gofalwyr di-dâl a'u rôl hanfodol yn ystod y cyfyngiadau symud. O ganlyniad i hyn, nid oeddent yn gallu cael gafael yn rheolaidd ar gymorth a gynlluniwyd i helpu pobl fel gweithwyr allweddol yn

¹²² Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 82

¹²³ BBC [Young carers' mental health 'deteriorating' in lockdown, says charity](#), Ionawr 2021

ystod COVID e.e. nid oedd gofalwyr di-dâl yn gallu cael blaenoriaeth ar gyfer siopa bwyd.

143. Mae gwaith ymchwil gan Ofalwyr Cymru wedi cyfrifo mai gwerth gofal di-dâl ers dechrau'r pandemig yw £33 miliwn y dydd.¹²⁴

144. Dywedodd Claire Morgan wrthym:

“If that care had to be replaced, that is the cost to the Welsh Government, and I think many unpaid carers are feeling that if that is the contribution that they're making, they should be better supported in their roles through services.”¹²⁵

145. Mae Gofalwyr Cymru am weld profion yn cael eu hymestyn ar gyfer gofalwyr di-dâl oherwydd:

“it's an area of huge anxiety for unpaid carers when they're around such vulnerable people, and particularly when many unpaid carers are still having to go out of the house to get food or medication [] to give them that reassurance that they aren't going to pass on the virus to their loved ones.”¹²⁶

146. Pan ofynnwyd a oedd unrhyw anawsterau ymarferol o ran cynnig profion asymptomatig neu frechlynnau i ofalwyr di-dâl, dywedodd Llinos Roberts o'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr y byddai'n dibynnu ar sut/ble y cafodd ei roi:

“Mae'n anodd iawn i rai gofalwyr adael y tŷ, er enghraifft. Wedyn, pe bai yna ddisgwyl iddyn nhw fynd i safle [] mi fyddai hynny'n medru bod yn broblem, oherwydd byddai ganddyn nhw neb i edrych ar ôl y person y maen nhw'n gofalu amdano fo. Pe bai'r tests yn dod i'r tŷ, efallai y byddai hynny dipyn bach yn haws.”¹²⁷

147. Hefyd, galwodd tystion am gynnwys gofalwyr di-dâl yn y don gyntaf o bobl sy'n cael y brechlyn.¹²⁸

¹²⁴ Gofalwyr Cymru, [Unpaid carers in Wales have saved £33 million every day of the pandemic](#), Tachwedd 2020

¹²⁵ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 41

¹²⁶ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 75

¹²⁷ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 78

¹²⁸ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 75

148. Mewn ymateb i gwestiwn yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Ionawr 2021 ar y strategaeth frechu mewn perthynas â gofalwyr di-dâl, cadarnhaodd y Prif Weinidog:

“[mae] gofalwyr di-dâl wedi eu cynnwys yng ngrŵp blaenoriaeth 6. Felly, dydyn nhw ddim yn y pedwar grŵp blaenoriaeth cyntaf yr ydym ni'n canolbwyntio arnyn nhw ar hyn o bryd, ond byddan nhw yn y gyfres nesaf o grwpiau blaenoriaeth.”¹²⁹

149. Mae hyn yn seiliedig ar grwpiau blaenoriaeth y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu.¹³⁰

150. Wrth roi tystiolaeth bellach i ni ar 27 Ionawr, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“It’s worth highlighting that we have two potential approaches. One is to take the very hard approach of, ‘You have to be on a list’, and we know that that will produce an injustice for a range of carers who won’t be on a specific list but will be undertaking significant caring responsibilities. Or we take an approach where we—as we are planning to—are working with carers’ organisations, as well as those parts of our health and care system that can help us to identify carers, and we may have an element of leakage, because, unfortunately, we’ve already seen that some people are sharing, outside of the priority groups, the ability to potentially jump the queue. Now, the difficulty here is that if we accept we’ll get leakage but it’s still the right thing to do, then we know that there’s the potential for criticism, but the alternative is we have a much tighter way of doing that, and we know that that will exclude carers who really should be getting through.

So, it’s about trying to work all those things through over the next couple of weeks, so before we get to the middle of February when we’re expecting to complete the first four priority groups, we’ll have a clearer understanding of how we’ll go about this, and in a way that carers’ organisations, I hope, will feel able to support.”¹³¹

¹²⁹ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 10

¹³⁰ Y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu: [advice on priority groups for COVID-19 vaccination](#), 30 Rhagfyr 2020

¹³¹ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 89-90

151. Cyhoeddodd y Gweinidog ganllawiau¹³² ar adnabod y gofalwyr di-dâl hynny sy'n gymwys i gael eu blaenoriaethu ar gyfer y brechlyn, a'r broses ar gyfer gwneud hyn, ar 24 Chwefror 2021.

Yr effaith ariannol ar ofalwyr

152. Mae gofalwyr hefyd yn teimlo'r straen ariannol yn sgil gofalu. Yn ôl Gofalwyr Cymru, mae mwy na chwarter y gofalwyr (29 y cant) yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd oherwydd pwysau ariannol ychwanegol y pandemig.¹³³ Yn wahanol i fudd-daliadau o dan ymbarél credyd cynhwysol, ni chafodd gofalwyr sy'n dibynnu ar lwfans gofalwyr gymhorthdal yn ystod cyfnod y pandemig.

153. Mae nifer cynyddol o ofalwyr hefyd yn cael eu rhoi yn y sefyllfa anodd o benderfynu rhwng gwaith cyflogedig a'u cyfrifoldebau gofalu. Dywedodd Heather Ferguson o Age Cymru wrthym:

“We've heard from people who've had to give up work or pare back their hours because they're worried about taking the virus back to the people they care for as well. So, obviously, that has implications in terms of finance in the home.”¹³⁴

154. Yn yr un modd, dywedodd Llinos Roberts o'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr wrthym:

“Y budd-dal isaf sy'n mynd ydy carers allowance, ac mae yna lot o bobl sydd wedi gorfod rhoi eu gwaith i fyny yn ystod y pandemig i ofalu. O'n safbwynt ni, rydyn ni wedi gweld gofalwyr sydd angen arian i helpu efo bwyd, efo pethau hanfodol megis tumble dryers am eu bod nhw'n golchi ac yn sychu dillad lot. Rydyn ni wedi cael arian ychwanegol o wahanol grantiau i wneud grantiau penodol i ofalwyr, ac mae rhai o'r sefyllfaedd yn dorcalonnus—yn dorcalonnus go iawn. Dydyn nhw ddim hyd yn oed efo'r equipment hanfodol maen nhw ei angen i ofalu. Wedyn, mae'n sefyllfa ddigalon ofnadwy, a dweud y gwir.”¹³⁵

155. Tynnodd Gofalwyr Cymru sylw at ymchwil yr oedd wedi'i gynnal dros yr haf a ddangosodd bod mwy o ofalwyr yn defnyddio banciau bwyd oherwydd eu

¹³² Datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, [Strategaeth Frechu COVID-19 – Canllawiau ar gyfer Cnw. Blaenoriaeth 6](#), Chwefror 2021

¹³³ Gofalwyr Cymru, Papur Briffio COVID 19: [Effaith ar Ofalwyr Di-dâl yng Nghymru](#)

¹³⁴ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2020, paragraff 65

¹³⁵ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 49

trafferthion ariannol. Dywedodd wrthym hefyd fod mwy o fenywod yn cysylltu â nhw yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt lai o annibyniaeth am eu bod yn gorfod dibynnu ar incwm eu priod.¹³⁶

156. Dywedodd Claire Morgan wrthym:

“There continues to be an assumption that women will take on the additional caring responsibility, and a lot of women carers are saying that their confidence is being undermined because they’re lacking the independence to do their own work, because they’ve had to reduce hours or give up work altogether. The thing that’s the issue around that is that where carers do give up work or reduce hours, it affects their long-term pension as well. So, we’re not only creating an issue in the short term but also in the long term as well.”¹³⁷

157. Yn gysylltiedig â hyn, ychwanegodd: “not enough people identify themselves as a carer, and because they don’t identify as a carer, they don’t access the benefits they’re entitled to, so we’re really pushing Welsh Government to do an awareness-raising campaign to improve knowledge about what support is available to carers, including the financial support.”¹³⁸

158. Mewn gohebiaeth dyddiedig 15 Chwefror 2021, fe wnaeth y Dirprwy Weinidog gydnabod bod angen gwneud mwy i gyrraedd y grwpiau hynny sy’n methu â manteisio ar eu hawl i fudd-daliadau lles yn gyson, gan gynnwys gofalwyr:

“Felly, mae partneriaid Cyngor a Mynediad y Gronfa Gyngori Sengl yn cynnal cynlluniau peilot ‘Profi a Dysgu’ yn chwe ardal y Gronfa, ac yn darparu negeseuon wedi’u teilwra a chymorth i annog y grwpiau sy’n lleiaf tebygol o hawlio’r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo i fanteisio ar hyn. Dechreuodd y cynlluniau peilot ym mis Hydref 2020 a byddant yn dod i ben ym mis Mawrth 2021, a bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu.

Yn ystod y 3 mis cyntaf, cyrhaeddodd y cynlluniau peilot 601 o bobl a’u cynghori ynghylch mwy na 1,600 o faterion yn ymwneud â’u hawl i fudd-daliadau lles a’u helpu i gael incwm ychwanegol o oddeutu £1m y flwyddyn. Bydd yr hyn a ddysgir o’r cynlluniau peilot yn cael ei rannu’n

¹³⁶ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 54

¹³⁷ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 54

¹³⁸ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 54

eang ddechrau mis Mai, ac yn helpu pobl o grwpiau allweddol, fel gofalwyr, i barhau i hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo.”¹³⁹

159. Mae Cynghrair Gofalwyr Cymru yn credu y dylai gofalwyr di-dâl, fel gofalwyr eraill, gael mynediad i gronfeydd caledi, gan fod llawer ohonynt wedi gorfod rhoi'r gorau i'w swyddi cyflogedig i ofalu ac mae llawer o rai eraill wedi defnyddio eu cynilion i dalu am gostau gofalu yn ystod y cyfyngiadau symud. Dywed y Cynghrair y bydd gofalwyr wedi arbed miliynau o bunnoedd i gyrff statudol ac nid yw'n foisol gywir iddynt beidio â chael cymorth ariannol o ganlyniad i hynny.¹⁴⁰

160. Ym mis Hydref 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gynllun cenedlaethol newydd i ofalwyr, ochr yn ochr â Chronfa Cymorth Gofalwyr gwerth £1m i sicrhau bod grantiau ar gael ar gyfer amrywiaeth o hanfodion. Wrth gyhoeddi'r gronfa, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“Rydym wedi gweld gofalwyr di-dâl yn gweithio oriau hirach ac mae'r pandemig wedi ei gwneud yn anoddach i ofalwyr ymdopi gyda'u swyddogaeth ofalu ochr yn ochr â byw eu bywyd nhw eu hunain. Mae rhai yn ei chael yn anodd ymdopi gyda chostau ychwanegol COVID-19 a nod y Gronfa Gymorth i Ofalwyr yw helpu i liniaru peth o'r pwysau ychwanegol, diangen hwn.”¹⁴¹

161. Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog gynnydd o £250,000 ar gyfer y Gronfa Cymorth i Ofalwyr i helpu gofalwyr di-dâl yng Nghymru i ymdopi â phwysau ariannol pandemig y coronafeirws:

“Mae'r pandemig wedi ychwanegu at yr heriau sy'n wynebu gofalwyr di-dâl ledled y wlad ac rwy' am ddiolch iddyn nhw am bopeth maen nhw'n ei wneud. Rwy'n falch o gyhoeddi y bydd swm ychwanegol o chwarter miliwn o bunnoedd ar gael i'r gronfa i helpu mwy o ofalwyr di-dâl a'u teuluoedd. Bydd y Gronfa Gymorth i Ofalwyr yn parhau i gael ei darparu drwy Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, sy'n chwarae rhan

¹³⁹ Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 24 Chwefror 2021, [Papur 12](#)

¹⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, C57

¹⁴¹ Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg: [Cronfa gwerth £1 filiwn i ofalwyr i nodi lansiad ymgynghoriad cyhoeddus](#), 20 Hydref 2020

mor ganolog yn y gwaith o ddarparu cyngor a chymorth i ofalwyr di-dâl.”¹⁴²

162. Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd:

“an extra £13.9 million had been invested in the discretionary assistance fund to help support individuals and families across Wales who are on low incomes and are experiencing severe financial hardship, and that fund is based purely on need. Advice services are available and they are very effective in helping people with their finances and helping them by supporting them to navigate through the benefit system.”¹⁴³

Ein barn ni

163. Mae'r effaith y mae'r pandemig yn ei chael ar ofalwyr di-dâl yn peri pryder mawr. Mae'n destun pryder yn benodol clywed bod mwy a mwy o ofalwyr yn gorfod dibynnu ar fanciau bwyd i oroesi. Rydym hefyd yn pryderu ynghylch yr awgrym fod y mater yn effeithio ar fenywod i raddau anghymesur, a'r effaith a gaiff hyn ar eu hannibyniaeth.

164. Er i ni nodi'r cyllid ychwanegol ar gyfer y cynllun cymorth i ofalwyr, rhywbeth pitw iawn yw hyn o'i gymharu â'r hyn sydd ei angen, fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog. Fodd bynnag, rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Dirprwy Weinidog bod angen gwneud mwy.

165. Un o'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg yn y dystiolaeth a gawsom yn ein hymchwiliad i Effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr oedd bod angen cyllid cynaliadwy ar gyfer y trydydd sector. Felly, fe wnaethom alw am drefniant cyllido hirdymor, cynaliadwy a symlach ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr o dan y Ddeddf. Hefyd, fe wnaethom ddadlau y dylid darparu cyllid bob tair blynedd o leiaf a rhaid i Lywodraeth Cymru symud tuag at hyn fel mater o flaenoriaeth.

166. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor yn unig, gan ddweud:

¹⁴² Llywodraeth Cymru, Cynnydd o chwarter miliwn o bunnoedd i'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr, 21 Ionawr 2021

¹⁴³ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2021, paragraff 85

“Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU wedi cyflawni Rownd Wariant ar gyfer blwyddyn yn unig. Rydyn ni'n cydnabod bod ein partneriaid yn y sector cyhoeddus yn galw am gyllidebu dros gyfnodau hwy er mwyn cefnogi cynllunio ariannol ymlaen llaw, ac rydyn ni'n cydymdeimlo â hynny. Ein huchelgais ni bob amser yw darparu eglurder tymor hir yng nghyswllt cyllidebau lle bynnag y bo hynny'n bosibl, fodd bynnag, rhaid cydbwysu hyn â thybiaethau cynllunio realistig a synhwylol.

Mae agenda cyni Llywodraeth y DU, ynghyd ag effaith barhaus yr argyfwng COVID-19 ar gyllid cyhoeddus a'r ansicrwydd parhaus yng nghyswllt y DU yn gadael yr UE, yn cyfyngu ar ein gallu ni i wneud hyn.”¹⁴⁴

167. Er ein bod yn cydnabod cyfyngiadau Llywodraeth Cymru o ran proses y gyllideb, mae COVID-19 wedi taflu goleuni llachar ar y materion hyn. Felly, dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei hymateb i'n argymhelliad, gyda'r nod o'i weithredu fel mater o frys.

168. Byddwn yn rhoi sylw arbennig i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu nodi gofalwyr di-dâl a chysylltu â hwy i gynnig y brechlyn o dan grŵp blaenoriaeth 6. Mae'n bwysig dros ben nad yw grwpiau o ofalwyr di-dâl yn cael eu hallgáu'n annheg rhag cael y brechlyn, a rhaid gwneud ymdrech ragweithiol i ledaenu'r gair am eu cymhwysedd.

169. At hynny, rydym yn cydnabod bod ymdrechion sylweddol yn cael eu gwneud i nodi gofalwyr di-dâl, yn enwedig gan nad yw llawer ohonynt wedi galw eu hunain yn ofalwyr cyn y pandemig o bosibl. Felly, mae'n hanfodol bod y wybodaeth hon yn cael ei chadw i'w defnyddio yn y dyfodol, nid yn unig o ran rhaglenni brechu/atgyfnerthu pellach ond hefyd o ran helpu i sicrhau bod gofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei hymateb i Argymhelliad 26 yn ein hadroddiad ar effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr¹⁴⁵—a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid hirdymor, cynaliadwy a symlach i

¹⁴⁴ Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr, Tachwedd 2019

¹⁴⁵ Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr, Tachwedd 2019

sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr—gyda'r bwriad o'i weithredu fel mater o frys.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei hymgyrchoedd cyfathrebu ac ymwybyddiaeth y cyhoedd mewn perthynas â rhaglen frechu COVID-19 yn cynnwys targedu gwybodaeth yn effeithiol ar gyfer gofalwyr di-dâl, a sicrhau eu bod yn ymwybodol eu bod yn gymwys i gael brechlyn.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'i phartneriaid i ddatblygu a gweithredu ymgyrch codi ymwybyddiaeth i wella gwybodaeth pobl am y gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr, yn enwedig o ran cymorth ariannol. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod gan bobl sydd wedi'u nodi fel gofalwyr di-dâl yn ystod y rhaglen frechu yn erbyn COVID-19 fynediad at wybodaeth am eu hawliau a'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer penderfyniadau a wnaed yn ystod pandemig COVID-19 mewn perthynas â chymorth/cyllid i ofalwyr di-dâl er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith anghymesur ar grwpiau na chymunedau yn y tymor byr neu'r tymor hwy.

4. Y camau nesaf a'r cynlluniau adfer

170. Clywsom fod llawer o ofalwyr yn poeni na fydd eu pecynnau gofal yn cael eu hadfer gan fod pobl yn tybio eu bod wedi 'ymdopi' yn ystod y pandemig naill ai heb unrhyw gymorth neu gyda rhywfaint o gymorth gan y trydydd sector.

171. Dywedodd Simon Hatch o Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrthym:

"I certainly have serious concerns about the sustainability of carers at all to be able to continue caring as we come, hopefully, through the pandemic, and it's really essential that we work openly and honestly with our colleagues in local government and across statutory sectors to recognise what's realistic and the gaps in terms of duties under the Act, and that we move back to a position that at least is trying to reach in terms of needs assessments, care support plans and all the legal provisions that should be there for carers absolutely as soon as possible."¹⁴⁶

172. Mae Cymdeithas Alzheimer's Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i warantu, mewn achosion lle cafodd gofal ei atal oherwydd rhagofalon coronafeirws (yn enwedig gofal cartref), y caiff ei adfer pan gaiff ei ystyried yn ddiogel, heb fod angen asesiad ffurfiol pellach diangen. Galwodd hefyd ar y GIG ac awdurdodau lleol i nodi sut y byddant yn cynnwys darparwyr gofal cymdeithasol a chartrefi gofal wrth gynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf, gan sicrhau bod gofal cymdeithasol yn gyfartal â'r GIG.¹⁴⁷

173. Mewn gohebiaeth dyddiedig 15 Chwefror 2021, cadarnhaodd y Gweinidog fod yn rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â'u gofynion statudol cyn hired a chyn belled ag y bo hynny'n bosibl:

"Dim ond os yw hyn yn hanfodol er mwyn cynnal y lefel uchaf bosibl o wasanaethau y dylid rhoi unrhyw newidiadau ar waith, a rhaid i unrhyw newidiadau fod yn rhai dros dro yn unig, yn rhai y gellir eu cyfiawnhau oherwydd amgylchiadau lleol na ellir eu hosgoi, a'u stopio ar y cyfle cyntaf posibl. Mae ein canllawiau statudol yn datgan: rhaid i ofal a / neu gefnogaeth unigolion ddychwelyd i'r trefniadau y cytunwyd arnynt cyn gynted ag y bo modd; ni ddylai'r cyfrifoldeb fod ar unigolion na'u teuluoedd/gofalwyr i sicrhau bod eu gofal a'u cefnogaeth yn cael eu

¹⁴⁶ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 36

¹⁴⁷ Cymdeithas Alzheimer's, [Worst hit: dementia during coronavirus](#), Medi 2020

hadfer; ac mae angen i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau a rhoi gwybod i'r rhai y bydd hyn yn effeithio arnynt ynglŷn â sut y caiff hyn ei wneud.”¹⁴⁸

174. Dywedodd Claire Morgan, Gofalwyr Cymru, wrthym mai'r hyn sydd ei angen yw cynllunio gwell ac adnoddau gwell ar gyfer cymorth di-dâl i ofalwyr, ochr yn ochr â darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol:

“Moving forward, unpaid carers will become even more vital in supporting health and social care to function, and what we need is better long-term planning around how carers will be part of that package.”¹⁴⁹

175. Aeth ymlaen i ddweud nad yw'n ymwneud â dychwelyd i wasanaethau a oedd yno o'r blaen yn unig, gan fod y pandemig wedi tynnu sylw at anghenion newydd am wasanaethau, yn enwedig mewn meysydd fel iechyd emosiynol a gwasanaethau cymorth profedigaeth.¹⁵⁰

176. Yn yr un modd, dywed Age Cymru y bydd angen i'r cymorth hwnnw fod ar gael i helpu pobl i wella eu hiechyd emosiynol a meddyliol, ac i fagu hyder yn eu gallu i ailymgysylltu a chymryd rhan yn eu cymunedau.¹⁵¹

177. Nododd Cynghrair Gofalwyr Cymru ei syniadau ar y camau ar gyfer adfer ar ôl y pandemig sydd eu hangen ar gyfer gofalwyr di-dâl. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Rhaid i'r cymorth ddychwelyd (fel cynlluniau cymorth gwasanaethau cymdeithasol) ar ôl llacio'r cyfyngiadau symud. Mae'n dweud y dylai hyn ddigwydd p'un a oedd y gofalwr wedi gofyn i'r gwasanaeth ddod i ben i ddechrau ai peidio oherwydd risg posibl o gael ei heintio.
- Mae nodi gofalwyr a chefnogi mynediad at wybodaeth a chyngor yn hanfodol. Dylid atgyfnerthu cyfrifoldebau awdurdodau lleol yn y maes hwn ac mae gan feddygon teulu rôl bwysig i'w chwarae o ran nodi gofalwyr yn systematig a'u cefnogi i gael gafael ar wybodaeth berthnasol – mae'r Cynghrair o'r farn y dylid ffurfioli'r rôl hon.

¹⁴⁸ Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 24 Chwefror 2021, [Papur 12](#)

¹⁴⁹ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 40

¹⁵⁰ Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr 2020, paragraff 42

¹⁵¹ Age Cymru, [Age Cymru dismayed by Welsh Government's omission of older people in its Covid 19 reconstruction plans](#), 9 Hydref 2020

- Mae angen gwell mynediad at wasanaethau allweddol a oedd yn bodoli cyn y pandemig a gwasanaethau newydd y gallai fod eu hangen yn awr e.e. cymorth profedigaeth, cwnsela, seibiant, cymorth cyflogaeth.
- Mae'r Gynghrair yn dod yn fwyfwy pryderus y bydd cynnydd yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gefnogaeth wael a gofalwyr yn cyrraedd pen eu tennyn. Mae'n awgrymu y dylid monitro derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer unrhyw gynnydd posibl.
- Mae angen gwella prosesau rhyddhau cleifion o'r ysbyty, er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty a bod cymorth ar gael i helpu i ryddhau cleifion yn ddiogel.¹⁵²

178. Cododd Cymdeithas Alzheimer's Cymru bryderon hefyd ynghylch atal gwasanaethau'n fwy cyffredinol, megis apwyntiadau meddygol arferol, mynediad at feddygon teulu, apwyntiadau cleifion allanol, a'r effaith a gaiff hyn. Dywedodd Sue Phelps wrthym ei bod yn pryderu'n benodol am wasanaethau dementia, lle nad yw pobl wedi gallu cael diagnosis na chael adolygiad o'u dirywiad, oherwydd bod gwasanaethau asesu cof a gwasanaethau diagnostig i gyd wedi dod i ben dros dro:

“The knock-on effect of that is that we're really concerned now that the backlog of those people waiting for their diagnoses or reassessment is hugely significant.”¹⁵³

179. Yn ei hadroddiad: *Worst hit: dementia during coronavirus*,¹⁵⁴ mae'r Gymdeithas Alzheimer's yn galw am gynllun adfer clir i sicrhau y gall pob elfen o wasanaethau asesu cof ail-agor, a dal i fyny â'r rhestrau aros fel nad yw'r cwmp o ran cyfraddau diagnosis dementia yn parhau.

180. Mae'r Gymdeithas Alzheimer's yn amcangyfrif y gallai 4,000 o bobl fod yn aros am adolygiad neu ddiagnosis newydd yng Nghymru.

“Just a small example of where the delay in diagnosis is having an effect is that I also sit on Welsh Government's dementia and hearing loss group, and what we're hearing from audiology already is that,

¹⁵² Cynghrair Gofalwyr Cymru, [Wales Carers Alliance Thoughts Regarding Welsh Government Recovery Roadmap](#), 2 Gorffennaf 2020

¹⁵³ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2020, paragraff 8

¹⁵⁴ Cymdeithas Alzheimer's, [Worst hit: dementia during coronavirus](#), Medi 2020

people who have not had their review or their diagnosis, and they're now getting it and going into audiology because they're either deaf or hard of hearing, it's too late for any intervention—so, for example, the use of a hearing aid—because their dementia has deteriorated to such an extent during this period that there's nothing that can be done.”¹⁵⁵

181. Mewn gohebiaeth dyddiedig 15 Chwefror 2021, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y bydd Llywodraeth Cymru, mewn perthynas ag asesiadau dementia, yn parhau i fuddsoddi £10 miliwn i gefnogi'r gwaith o roi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia 2018 i 2022 ar waith, gyda'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn (dros £9 miliwn) yn cael ei ddyrannu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Aeth ymlaen i ddweud:

“Hefyd, yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22 rydym yn cynnig darparu hyd at £3m o arian ar gyfer gwella gwasanaethau er mwyn cefnogi gwasanaethau asesu'r cof a'r cymorth cofleidiol hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi wrth iddynt fynd drwy'r broses hon o gael eu hasesu a chael diagnosis.”¹⁵⁶

182. Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Phapur Gwyn: Ailgydbwyso gofal a chymorth.¹⁵⁷ Mewn datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 9 Chwefror, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“Mae'r pandemig wedi rhoi gofal a chymorth dan straen pellach sylweddol, ac mae gwendid y sector yn fwy gweladwy byth. Mae'n anodd, ar hyn o bryd, rwy'n gwybod, edrych ymhell y tu hwnt i'r wythnos bresennol, heb sôn am edrych i'r dyfodol hirdymor, ond mae effaith y pandemig yn dangos bod yn rhaid inni weithio i roi gofal a chymorth ar sail hirdymor llawer cadarnach. Dyna pam mae'n rhaid inni gyflymu ein gwaith trawsnewidiol ni er mwyn gwneud gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy. Mae'n rhaid achub ar y cyfle pan fo ymwybyddiaeth y cyhoedd o ofal cymdeithasol wedi cyrraedd uchafbwynt, a cheisio creu consensws ledled Cymru ynglŷn â'r hyn y mae angen inni ei wneud i ailgodi'n gryfach. Mae'n rhaid inni ddysgu o'r ffordd y mae'r sector wedi gweithio gyda'i gilydd yn ystod y

¹⁵⁵ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2020, paragraff 37

¹⁵⁶ Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 24 Chwefror 2021, [Papur 12](#)

¹⁵⁷ Llywodraeth Cymru, [Papur Gwyn: Ailgydbwyso Gofal a Chymorth](#), 12 Ionawr 2021

pandemig i gydlynu a darparu gwasanaethau, yn unol â'n gweledigaeth ni o Gymru iachach.”¹⁵⁸

183. Mae'r Papur Gwyn yn nodi cynigion ar gyfer, ymhlith pethau eraill, datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth i blant ac oedolion; a sefydlu 'swyddfa genedlaethol' ar gyfer gofal cymdeithasol i ddatblygu a chyflawni'r fframwaith cenedlaethol.

184. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r cynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn gryfhau trefniadau'r sector gofal cymdeithasol a gwella ansawdd gofal; lleihau cymhlethdod; cynyddu cynaliadwyedd a chryfhau integreiddio; a bod yn fwy tryloyw yn hytrach na chuddio atebolrwydd lleol.

185. Bydd yr ymgynghoriad yn parhau tan fis Ebrill 2021.

Ein barn ni

186. Rydym yn cytuno â'r tystion – lle mae gofal wedi cael ei atal oherwydd rhagofalon coronafeirws, yn enwedig gofal cartref, rhaid ei adfer cyn gynted ag y bydd yn ddiogel i wneud hynny, heb fod angen asesiadau ffurfiol pellach diangen. Rydym yn croesawu sicrwydd y Dirprwy Weinidog yn ei llythyr dyddiedig 15 Chwefror 2021 y bydd hyn yn digwydd. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog hyn eto mewn datganiad ysgrifenedig ar 19 Chwefror 2021¹⁵⁹, ochr yn ochr â hysbysiad o'i bwriad i atal y darpariaethau yn Neddf Coronafeirws y DU 2020 sy'n caniatáu addasu pecynnau gofal o 22 Mawrth 2021.

187. Rhaid i gynlluniau adfer a chynlluniau ar gyfer y dyfodol gynnwys ffocws digonol ar ofal cymdeithasol a phobl hŷn, a hefyd cyfrif am y gwasanaethau ychwanegol y bydd eu hangen o ganlyniad i'r pandemig mewn modd priodol. Er enghraifft, gwasanaethau ar gyfer pobl sydd â COVID hir, cymorth iechyd meddwl a phrofedigaeth, a gofal seibiant.

188. Rydym yn croesawu cyflwyno Papur Gwyn y Llywodraeth a'r ymrwymiad i roi gofal cymdeithasol a chymorth ar sail gadarnach yn y tymor hir, Rydym ni, a'n rhagflaenwyr mewn Seneddau blaenorol, wedi bod yn galw am weithredu i sicrhau cynaliadwyedd y sector gofal cymdeithasol ers amser maith, a rhaid i

¹⁵⁸ Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 9 Chwefror 2021, paragraff 229

¹⁵⁹ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Deddf Coronafeirws 2020 \(Atal dros dro: Rheoliadau Gofal a Chymorth Awdurdodau Lleol\) \(Cymru\) 2021](#), Chwefror 2021

Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd wneud cynnydd yn hyn o beth. Rydym yn annog ein pwyllgor olynol i fonitro cynnydd yn y maes hwn.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru roi datganiad yn gynnar yn y Chweched Senedd ar ei chynigion i gryfhau'r trefniadau ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a chanlyniad yr ymgynghoriad ar ei Phapur Gwyn ar ailgydbwyso gofal a chymorth, a sut y bydd yn ystyried yr argymhellion perthnasol a wnaed gan Bwyllgor Iechyd y Senedd hon a'r rhai blaenorol.